# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2020<br>am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 11 MARCH 2020<br>at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mr Thomas Rhys Davies
Mr Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor J Arwel Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Keith Roberts
Mr Iorwerth Roberts

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 16)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:-

- 6 Chwefror 2019
- 17 Medi 2019

yn cynnwys materion sy'n codi.

**3** **MATERION SY'N YMWNEUD AG AELODAU** (Tudalennau 17 - 18)

Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn darparu diweddariad ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag Aelodau.

**4** **HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 19 - 26)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar Hyfforddiant Aelodau.

**5** **HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 27 - 30)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y gofynion hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

**6** **CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 31 - 36)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarteri 2 a 3 2019/20.

**7** **PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 37 - 56)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Goflyfr Cod Ymddygiad OGCC ar gyfer Ebrill – Mehefin 2019 (Rhifyn 21 – cyhoeddwyd Medi 2019), a Gorffennaf – Medi 2019 (Rhifyn 22 – cyhoeddwyd Hydref 2019).

**8** **PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 57 - 66)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau diweddaraf Panel Dyfarnu Cymru.

**9** **CYFARWYDDYD YMARFER PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 67 - 70)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Gyfarwyddyd Ymarfer PDC dyddiedig 1 Ionawr, 2020.

**10** **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Mae'n arferol i'r Swyddog Monitro baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfnod rhwng y

Pwyllgor Safonau ar 17 Medi, 2019 a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn, does dim ceisiadau am ganiatâd arbennig wedi eu derbyn. Ar y sail hwn, does dim adroddiad wedi'i atodi.

**11 PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL** (Tudalennau 71 - 88)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor.

**12 BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)** (Tudalennau 89 - 96)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

**13 EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

O dan Adran 100 (A) (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r wasg a'r cyhoedd i gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran y Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu cyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus trwy Orchymyn Llys. Nid yw'r gwaharddiad yn destun Prawf Budd y Cyhoedd.

**14 I YSTYRIED YR YMATEB A DDERBYNIWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN LLYTHYR DYDDIEDIG 3 HYDREF, 2019.** (Tudalennau 97 - 102)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan OGCC.

**15 EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 103 - 106)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**16 ADOLYGIADAU A GYNHALIWYD YN DILYN DERBYN ADRODDIADAU GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (SAC)** (Tudalennau 107 - 116)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar adolygiadau yn dilyn derbyn adroddiadau y Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

This page is intentionally left blank

# YFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020

**PRESENNOL:** **Aelodau Annibynnol**

Mr John R Jones (Cadeirydd)
Mr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)

Mrs Celyn Menai Edwards
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**

Y Cynghorydd Keith Roberts

**WRTH LAW:** Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (Cynghorau Tref a Chymuned)
Y Cynghorydd J Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas

---

**1. CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 i'r Pwyllgor.

Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) nad oedd cworwm yn bresennol ac nad oedd modd cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 gan mai dim ond dau aelod a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol oedd yn bresennol, sef y Cadeirydd a'r Cynghorydd Keith Roberts. Dywedodd bod rhaid cael tri aelod a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol i gadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

Cyflwynir y cofnodion drafft i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2020 i'w cadarnhau. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Roberts bod y cofnodion yn gywir yn eu barn nhw.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ei bod wedi anfon dogfen "materion yn codi" at holl aelodau'r pwyllgor Safonau yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd, yn unol â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) at eitem 11 yn y cofnodion – 'Adroddiad Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru'. Rhannwyd e-bost gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â chyfarfod nesaf y Fforwm ac unrhyw eitemau yr oedd yr aelodau'n dymuno eu hawgrymu ar gyfer y rhaglen.

## 3. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 4. ETHOL CADEIRYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ynglŷn â'r broses o ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau, yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Pharagraff 2.9.2.6.2 Cyfansoddiad y Cyngor.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Cadeirydd o blith ei aelodau annibynnol. Mae gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais. Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol am gyfnod o bedair blynedd, neu hyd nes y bydd tymor yr aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau'n dod i ben. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i gael ei ail-ethol i'r rôl.

**PENDERFYNWYD ethol Mr John R Jones yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).**

**Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau am ymddiried ynddo drwy ei ethol yn Gadeirydd, a dywedodd y byddai'n ceisio gwneud ei orau yn y swydd. Roedd yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at weithio fel tîm, gyda chymorth swyddogion. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu gwasanaethu am un tymor yn unig fel bod yr awenau'n cael eu trosglwyddo'n llyfn i ba bynnag aelod annibynnol fydd yn cael ei ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor yn y dyfodol.

## 5. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y weithdrefn i ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau, yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol am gyfnod o bedair blynedd, neu hyd nes bydd cyfnod yr aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau'n dod i ben. Bydd yr Is-gadeirydd yn gymwys i gael ei ail-ethol hefyd. Mae gan bob aelod o'r Pwyllgor hawl i bleidleisio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ystyried tymor o lai na phedair blynedd ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant

Corfforaethol) bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau wneud penderfyniad yn unol â'r rheolau statudol a chyfansoddiadol. Er mwyn newid tymor yr Is-gadeirydd byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD ethol Mr Thomas Rhys Davies yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.40pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Ms Denise Harris-Edwards<br>Mr John R Jones<br>Mrs Dilys Shaw<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>**Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd Iorwerth Roberts<br>Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/ Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 5)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant (CD) (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Thomas Rhys Davies<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd John Arwel Roberts |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. PENODI PEDWAR AELOD CYFETHOLEDIG NEWYDD AC UN AELOD ETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod tymor pedwar o'r pum aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 19 Rhagfyr 2019. Bydd y pumed aelod, Mr John Robert Jones, a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn parhau yn ei rôl.

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi dirprwyo awdurdod i Banel Dewis y Pwyllgor Safonau gynnal y broses recriwtio a dewis ar gyfer penodi aelodau newydd i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y Panel wedi llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld, a chynhaliwyd cyfweliadau ar 29 a 30 Gorffennaf 2019. Enwebodd y Panel y pedwar aelod canlynol o'r cyhoedd i'w penodi i rôl aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau:-

Mr Thomas Rhys Davies
Mrs Celyn Menai Edwards
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

Cadarnhawyd y penodiadau gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Medi 2019.

Cadarnhawyd y bydd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn parhau yn ei rôl fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiad nesaf yn 2022.

Mae'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau, ac mae'r Cynghorydd John Arwel Roberts wedi cymryd ei le.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed gan Banel Dewis y Pwyllgor Safonau, ac a dderbyniwyd gan y Cyngor llawn ar 10 Medi 2019:-**

- **Penodi Mr Thomas Rhys Davies, Mrs Celyn Menai Edwards, Mrs Gill Murgatroyd a Mrs Sharon Warnes fel aelodau annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau o 20 Rhagfyr 2019; am hyd at ddau dymor, fel y caniateir gan statud a'r Cyfansoddiad.**
- **Pe bai swydd achlysurol arall yn codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi Mrs Pauline Vella i'r rôl hon yn awtomatig heb fod angen proses recriwtio arall, ar yr amod pob amser fod Mrs Vella yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl.**
- **Cadarnhau y bydd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn parhau fel cynrychiolydd Cynghorydd Sir tan yr etholiad nesaf yn 2022.**
- **Cadarnhau penodiad y Cynghorydd Sir John Arwel Roberts yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, tan yr etholiad nesaf yn 2022 yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o wasanaethu am dymor pellach.**
- **Cadarnhau y dylid rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/-Swyddog Monitro gynnwys Panel Dewis y Pwyllgor Safonau yng Nghyfansoddiad y Cyngor er mwyn osgoi'r**

**angen parhaus am “ddarpariaethau arbed” yn yr adroddiad ar strwythur pwyllgorau, a gadarnheir gan y Cyngor yn ei gyfarfodydd blynyddol.**

## 3. COFNODION CYFARFOD

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

Adroddodd y Swyddog Monitro bod dogfen “materion yn codi” wedi cael ei hanfon at holl aelodau’r Pwyllgor Safonau yn manylu ar y camau a gymerwyd yn unol â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Modern.Gov wedi ymateb i ymholiad TGCh ynghylch ychwanegu naratif at y system Modern.Gov, fel y gall aelodau cyfetholedig ychwanegu gwybodaeth o gwymplen ar gyfer 'Datganiadau o Ddiddordeb', 'Anrhegion a Lletygarwch 'a' Hyfforddiant '. Ar hyn o bryd, dim ond enwau Aelodau etholedig sydd wedi’u cynnwys ar y ‘gwymplen’ ar-lein.

Adroddodd y Swyddog Monitro y byddai’n costio £5000 i ddiweddaru’r system Modern.Gov i gynnwys naratif.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi ffi Modern.Gov i weithredu'r newidiadau uchod i'r system Modern.Gov.**
- **Bod y Swyddog Monitro, ar ran y Pwyllgor Safonau, yn gwneud cais am gyllid gan y Swyddog Adran 151 i ddiweddaru'r system i gynnwys yr aelodau cyfetholedig ar y ‘gwymplen’.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 4. DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar gyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau ers cyflwyno’r adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor hwn ar 13 Mawrth 2019.

Cafwyd ddiweddariad ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau gan y Rheolwr Datblygu AD. Dywedodd y bydd y Cynllun Datblygu yn cael ei gylchredeg i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bob chwarter i nodi cyrsiau a fyddai’n addas ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig. Nodwyd bod y Cynllun Datblygu yn ddogfen esblygol sy'n cael ei diweddaru'n barhaus.

Amlygodd y Rheolwr Datblygu AD y pwyntiau a ganlyn:-

- Mae ffurflenni gwerthuso cyrsiau ar gael ar-lein ac ar ffurf bapur. Er bod Aelodau'n cael eu hannog i lenwi ffurflenni ar-lein, mae'r defnydd a wneir o'r ffurflenni electronig wedi bod yn gyfyngedig.
- Mae angen i aelodau gymryd cyfrifoldeb personol am gofnodi manylion ar-lein am hyfforddiant/cyrsiau y maent wedi'u mynychu / gwrthod. Anogir aelodau i gyhoeddi eu cofnodion presenoldeb ar wefan y Cyngor o dan eu proffil unigol.
- Mewn perthynas ag E-Ddysgu, mae datblygiadau wedi digwydd mewn perthynas â Phlatfform E-Ddysgu'r GIG, a fydd yn golygu y bydd y system yn haws i'w defnyddio. Bydd modd cael at fodiwlau E-Ddysgu ar I-pad yn haws hefyd.
- Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth TGCh a'r Gwasanaethau Democrataidd i gynhyrchu llawlyfr i'r Aelodau ar faterion TGCh. Trefnwyd sesiynau galw heibio i gynorthwyo Aelodau gydag unrhyw faterion TGCh.
- Bellach gellir gweld y cyflwyniad Powerpoint ar GDPR a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2019 ar MonITor. Mae sesiwn hyfforddi orfodol ychwanegol wedi'i threfnu ar gyfer yr Hydref, a gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig i fynychu.
- Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - trefnwyd a chyflwynwyd dwy sesiwn. Mae sesiynau hyfforddi gorfodol pellach wedi'u trefnu ar gyfer yr Hydref, a gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi a derbyn y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau.**
- **Arddangos copi o'r Rhaglen Hyfforddi Aelodau Etholedig yn lolfa'r Aelodau.**
- **Bod y Llawlyfr Sgiliau TGCh yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau Etholedig a'r Aelodau Cyfetholedig.**
- **Gofyn i Arweinwyr Grŵp atgoffa Aelodau o'r angen i fynychu sesiynau hyfforddi gorfodol a sesiynau hyfforddi eraill.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 5. MATERION SY'N YMWNEUD AG AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar amrywiol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod 28 o'r 30 Aelod bellach wedi cwblhau a chyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2018/19 ar-lein. Dywedodd nad yw dau Aelod wedi cyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol am y cyfnod, a bod eu Harweinydd Grŵp wedi cael gwybod.

Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 25 Medi 2019, o ran trefniadau ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd unrhyw ddisgwyliadau ar Aelodau yn dod i'r amlwg yn y Bil Llywodraeth Leol sydd ar ddod.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y dyfarnwyd Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau i'r Cyngor Sir ac fe'i cyflwynwyd yn swyddogol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf a bydd mewn grym am gyfnod o dair blynedd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd fel y manylir yn yr adroddiad.**

**Camau Gweithredu: Dim**

## 6. CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y diweddariad chwarterol ynghylch cwynion a oedd ar ffurf matricsau ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned mewn perthynas â Chwarter 4 2018/19 a Chwarter 1 2019 / 20.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) na chyflwynwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir Ynys Môn rhwng Ionawr a Mawrth 2019 (Chwarter 4), ac Ebrill a Mehefin 2019 (Chwarter 1).

Adroddwyd bod tair cwyn wedi'u gwneud yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned ar y matrics ar gyfer Chwarter 4; roedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn gyntaf, nid oedd yn ymchwilio i'r ail, ac roedd yn ystyried y drydedd gŵyn. O ran y matrics ar gyfer Chwarter 1, adroddwyd bod dau fater gyda'r Ombwdsmon i'w hystyried ganddo.

Mewn perthynas â'r cyntaf o'r cwynion hynny a oedd ar ôl, mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad, yn dilyn ymchwiliad, nad oes tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. O ran yr ail, mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad ac Atodiadau 1-4.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn cylchredeg Atodiadau 1-4 i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau Etholedig a Chyfetholedig y Cyngor.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 7. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn crynhoi gwybodaeth a gyhoeddwyd am benderfyniadau Cymru Gyfan gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Chwefror a Mai 2019.

Amlygodd y Swyddog Monitro'r canlynol o'r adroddiad:

- Pan fônt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylai Cynghorwyr wahanu eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol preifat oddi wrth eu rôl fel Cynghorwyr. Mewn rhai achosion bydd hyn yn osgoi gweithredu'r Côd Ymddygiad.
- Rhoddwyd pwyslais ar yr angen i Gynghorwyr Cymuned ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dilyn cwyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned a oedd wedi gwneud sylwadau a oedd yn gwahaniaethu ar sail oed a sylwadau gwahaniaethol.
- O ran y diddordebau i'w cofrestru ymlaen llaw, atgoffwyd yr Aelodau bod raid iddynt gofrestru eu diddordebau cyn pen 28 diwrnod o gael eu hethol i'r swydd, ac i ddiweddaru'r gofrestr, os bydd unrhyw newidiadau, cyn pen 28 diwrnod arall.
- Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gŵyn yn erbyn Cynghorydd gan Gyngor Cymuned Bugeildy, a fethodd â datgan mewn cyfarfod ei fod yn berchen ar dir a fyddai'n cael ei effeithio gan y mater dan sylw, gan felly dorri'r Côd. Canfu'r Ombwdsmon fod gan y mater arwyddocâd ehangach i'r gymuned ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Yn amodol ar ymateb yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chyngor Cymuned Bugeildy, bod y Swyddog Monitro yn ceisio gwybodaeth bellach pe bai angen gan Glerc Cyngor Cymuned Bugeildy, ar y sail y byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei golygu a'i rhannu'n gyfrinachol ag aelodau'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth yn unig.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

**8. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2019.

Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yr adroddwyd ar un achos, a oedd yn ymwneud â chyn-Gynghorydd Sir (Cynghorydd Cymuned ar hyn o bryd) yng Nghyngor Sir Fynwy yn torri'r Côd Ymddygiad. Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi trafod yr achos gwreiddiol yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019 (Eitem 7 ar y rhaglen). Mae'r adroddiad cyfredol mewn perthynas â sylwadau pellach a wnaed gan y Cynghorydd yn dilyn gwrandawiad gwreiddiol Panel Dyfarnu Cymru.

Penderfynodd tribiwnlys yr achos y dylid gwrthod yr achos gan nad oedd cwyn ysgrifenedig, ac roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru heb ymchwiliad. Roedd yn bryderus nad oedd yr Ombwdsmon wedi dilyn y weithdrefn gywir wrth gyfeirio'r mater yn uniongyrchol heb ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r crynodeb o'r achos.**

**Camau Gweithredu: Dim**

## 9. CANIATADAU ARBENNIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ganlyniad ceisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2019. Ar yr achlysur hwn, roedd yr holl geisiadau’n ymwneud â Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y ceisiadau canlynol am ganiatadau arbennig:-

- 7.3.19 – Rhoddwyd caniatâd arbennig bloc i 8 aelod o Gyngor Cymuned Llaneilian i oresgyn nifer o ddiddordebau rhagfarnus gwahanol mewn perthynas â darparu addysg gynradd yn ardal Amlwch.
- 22.3.19 - Rhoddwyd caniatâd arbennig bloc i 5 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a chanddynt ddiddordebau rhagfarnus ar y sail eu bod yn neiniau a theidiau i blant a phobl ifanc a allai gael eu heffeithio gan benderfyniad mewn perthynas â darparu addysg ôl-16 yn y Sir.
- 29.3.19 - Rhoddwyd caniatâd arbennig cyfyngedig i'r Cynghorydd Carwyn Jones mewn perthynas â diddordebau rhagfarnus o ran darparu addysg ôl-16 yn y Sir, ar y sail ei fod yn rhiant i blant yn Ynys Môn ac yn gweithio i ddarparwr addysg ôl-16.
- 18.7.19 - rhoddwyd caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Derek Owen o Gyngor Cymuned Llanbadrig mewn perthynas â diddordebau rhagfarnus ynghylch darparu addysg gynradd yn ardal Amlwch.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r caniatadau arbennig a roddwyd ac ar ba seiliau ac o dan ba amgylchiadau y rhoddwyd nhw.**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 7.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, John R Jones a Keith Roberts).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 22.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise Harris-Edwards a John R Jones).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 29.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise-Harris Edwards a John R Jones).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 18.7.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, John R Jones a Keith Roberts).**

**Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

**10. ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DIDDORDEBAU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG A CHYFETHOLEDIG CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod yr adolygiad o'r tair Cofrestr o Ddiddordeb ar gyfer Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig wedi'i gynnal ym Mehefin / Gorffennaf 2019 gan 5 aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau. Cynhaliwyd yr adolygiad o Gofrestrau o Ddiddordebau'r 5 aelod annibynnol gan gynrychiolwyr y Cyngor Tref a Chymuned o'r Pwyllgor Safonau.

Nodwyd bod y Pwyllgor yn hapus yn gyffredinol gyda chanlyniad yr adolygiad, a bod y sefyllfa ychydig yn well nag yn flwyddyn flaenorol.

Codwyd y pwyntiau canlynol fel materion sydd angen sylw: -

- Nid yw'r holl Adroddiadau Blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Nid oes gan aelodau cyfetholedig y cyfleuster i gofnodi eu cofnodion hyfforddi ar-lein (trafodwyd y mater yn Eitem 3 - Cofnodion).
- Gan gyfeirio at y Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau, codwyd pryderon nad yw'r wybodaeth a gofnodir yn ddigon penodol.
- Dylai'r Gwasanaeth TGCh gynnwys dolen i'r Caniatadau Arbennig a roddwyd i aelodau o dudalen bywgraffiad/adroddiad blynyddol pob aelod.

Yn dilyn cyfarfod anffurfiol o'r aelodau annibynnol ar 19 Gorffennaf 2019 a chynrychiolwyr y Cyngor Tref a Chymuned ar 28 Mehefin 2019, mae llythyr cyffredinol o gyngor (Atodiad 1) wedi'i ddrafftio, a fydd yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor gyda hyn. Adroddodd y Cyfreithiwr fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu cyfarfod o'r Arweinwyr Grŵp ar 5 Medi 2019 i drafod materion sy'n codi o'r adolygiad o'r Cofrestrau a chynnwys Atodiad 1.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo cynnwys Atodiad 1, a chytuno i rannu'r llythyr o gyngor gydag Aelodau Cyfetholedig ac Etholedig y Cyngor.**
- **Bod y camau a nodwyd yn Adrannau 2.2.1 a 2.2.4 yr adroddiad yn cael eu codi gyda'r Gwasanaeth TGCh/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**

**Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

**11. ADRODDIAD FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU O'R CYFARFOD AR 24 MEHEFIN 2019**

Cyflwynwyd - adroddiad ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Sir y Fflint ar 24 Mehefin 2019.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd fod yr Ombwdsmon wedi rhoi cyflwyniad, a oedd yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb a rhywedd; a phwerau newydd yr Ombwdsmon.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar Gyd-Bwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Gofynnodd yr Is-Gadeirydd am eglurhad ar fanteision ac anfanteision posib cyd-bwyllgorau o'r fath, a dywedodd fod angen trafod y mater hwn ymhellach. Cafwyd trafodaeth wedyn ond ni ddaethpwyd i ganlyniad pendant.

Teimlai'r Cadeirydd fod y cofnodion yn anghywir mewn rhai agweddau, ac nad oeddent wedi cynnwys yr holl bwyntiau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, ac y byddai'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn hysbysu swyddogion o unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i'r cofnodion.**

**12. YMATEB GAN Y CYNGHORAU CYMUNED YNGHYLCH:-**

**12.1 Adolygiad o Gofrestrau Cynghorau Cymuned yn 2018/19**
**12.2 Hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Chlercod**

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad o 5 Cyngor Tref a Chymuned ym mis Rhagfyr 2018/Ionawr a Chwefror 2019 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod adroddiad cyffredinol wedi'i gylchredeg i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar ganfyddiadau'r Adolygiad o'r Cofrestrau, gyda chais i'r Clercod ddwyn cynnwys yr adroddiad hwn i sylw holl aelodau eu Cynghorau Tref a Chymuned, a’i gynnwys ar raglen eu cyfarfod nesaf, gyda chopi o'r cofnodion i’w anfon wedyn at y Pwyllgor Safonau.

Nodwyd nad oedd 22 allan o 40 o Gynghorau Tref a Chymuned wedi ymateb.

Anfonwyd gohebiaeth bellach at Gynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â hyfforddiant. Nodwyd nad oedd 23 allan o 40 o’r Cynghorau wedi ymateb erbyn 31 Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn yr Atodiadau i'r adroddiad.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glercod Cynghorau Tref a Chymuned yn mynegi diolchgarwch y Pwyllgor i'r rheini sydd wedi ymateb yn gadarnhaol, ac yn cadarnhau na chynhelir adolygiad o'r Cynghorau hynny am y 2 flynedd nesaf o leiaf.**

- **Bod y Pwyllgor Safonau newydd yn cymryd y wybodaeth hon i ystyriaeth wrth ddewis Cynghorau Tref a Chymuned i'w hadolygu yn y blynyddoedd i ddod.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod**

## 13. ADOLYGU CYNSEILIAU/NODIADAU BRIFFIO I'W CYMERADWYO GAN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno y dylid adolygu'r Nodiadau Briffio ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned mewn perthynas â Chaniatadau Arbennig.

Cododd yr Is-Gadeirydd fater ynghylch Pwynt 9 ar y Nodyn Briffio ar gyfer Caniatadau Arbennig, sy'n cyfeirio at anabledd. Dywedodd y **cyfeirir at anabledd fel 'anallu' ar y rhaglen Gymraeg, sy'n cyfieithu fel 'inability' yn hytrach na'r gair cywir 'anabledd'.** Cadarnhawyd mai'r geiriad yw'r un a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth ac mae cadarnhad a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi mai anallu ydyw h.y. anallu statudol (yn hytrach nag anabledd personol).

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau'r diwygiadau i'r Nodiadau Briffio ar Ganiatadau Arbennig fel y dangosir yn Atodiadau 1 a 2.**
- **Anfon Atodiad 1 at Gynghorau Tref a Chymuned, gyda chais i'r Clercod ei ddwyn i sylw'r aelodau, a bod Atodiad 2 yn cael ei ddosbarthu i aelodau etholedig a chyfetholedig CSYM a bod y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei huwchlwytho i'r system fewnrwyd yn unol â hynny.**
- **Cadarnhau'r diwygiadau i'r Nodyn Methodoleg ar Adolygu Cofrestrau yn Atodiad 3.**
- **Bod y Nodyn Methodoleg ar Adolygu Cofrestrau yn Atodiad 4 yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw adolygiadau a gynhelir mewn Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.**
- **Cadarnhau mabwysiadu Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau gyda'r nodyn diwygiadau anodedig yn Atodiad 5.**
- **Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl gyda'r diwygiadau anodedig a nodir yn Atodiad 6, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.**

**Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**“Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 15,  oherwydd ei fod yn golygu datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn unol â pharagraff 4.2.10.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**

**15. YSTYRIED YR YMATEB A DDERBYNIWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN LLYTHYR DYDDIEDIG 13 AWST 2019**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar benderfyniadau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau Côd Ymddygiad.

O ganlyniad i'r adroddiad a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, penderfynodd y Pwyllgor Safonau ofyn am wybodaeth bellach gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Derbyniwyd ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn egluro’r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr cychwynnol yn Atodiad 1, a'r ymateb a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Atodiad 2.**

**Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu cymorth a'u cefnogaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf. Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes am ei gyfraniad ardderchog i'r Pwyllgor Safonau.**

**Diolchodd aelodau unigol y Pwyllgor Safonau i'r Cadeirydd yn bersonol am ei gefnogaeth a'i arweiniad dros y blynyddoedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **11 Mawrth 2020** |
| **Teitl:** | **Materion Aelodau Etholedig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd ar gynnydd hyd yma** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

### 1.1 Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol am y cyfnod 2018/19.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

O safbwynt adroddiadau blynyddol ar gyfer 2018/19 mae 28 o Aelodau wedi paratoi adroddiadau hyd yn hyn – gweler y ddolen isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

Diweddarwyd Arweinyddion Grwpiau ar y gwaith o baratoi adroddiadau ar gyfer 2019/20. Bydd templedi yn cael eu hanfon i bob Aelod yn unigol ddiwedd mis Mawrth a chais i gwblhau adroddiadau erbyn diwedd Ebrill, ac yna byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Mehefin 2020.

### 1.2 Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2020/21

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol ar lwfansau i'w talu yn 2020/21. Ychydig iawn o newid a wneir ar wahân i godi'r cyflog sylfaenol i £14,218, sef cynnydd o £350 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 2.5%. Ni fydd unrhyw gynnydd i'r uwch gyflogau ond bydd y cyfanswm a delir yn adlewyrchu'r cynnydd o £350 i'r cyflog sylfaenol.

Mae'r Panel yn nodi yn yr adroddiad blynyddol mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Maent yn cydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r draul ddilys hon. Caiff hyn eu hadlewyrchu yn y newid a wnaed i'r gofynion cyhoeddi , sef mai dim ond y cyfanswm yr ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai'r awdurdodau perthnasol ei

gyhoeddi. Mater i bob awdurdod fydd penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu

Mae Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/21 (Chwefror 2020) ar gael yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/adroddiad-blynyddol-2020-i-2021.pdf

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn adroddiad ar hyn.

**1.3 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Ymgynghorwyd ar gynnwys Bil Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mae'r Bil yn cynnwys nifer eang o faterion y bydd angen rhoddi sylw iddynt yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar wahân yn delio gyda'r Bil. Mae un rhan o'r Bil yn delio gyda chyhoeddi cyfeiriadau cartref aelodau ar wefan y Cyngor. Ymgynghorwyd gydag Aelodau yn ddiweddar ar y cwestiwn hwn yn sgil sylwadau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn y Nadolig. Bellach mae rhai Aelodau wedi dewis peidio â chyhoeddi cyfeiriadau cartref ar wefan y Cyngor felly cyfeiriad y Cyngor yn unig sy'n ymddangos.

## 2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**2 Mawrth, 2020**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 11 MAWRTH 2020 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | SWYDDOG DATBLYGU AD DAN HYFFORDDIANT / RHEOLWR DATBLYGU AD |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | CHERIE DUFFY/MIRIAM WILLIAMS |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN HYFFORDDI AELODAU |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Pwyllgor Safonau â diweddariad ar y cynnydd o ran cyfleoedd datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd ar 17 Medi 2019. Mae'r Adroddiad hefyd yn mynd i'r afael â'r ymholiadau a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol mewn perthynas â dysgu a datblygu Aelodau Etholedig.

## 2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Mae'r tîm Datblygu AD yn cydweithio mewn partneriaeth agos â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod Aelodau Etholedig yn derbyn y cymorth dysgu a datblygu sydd ei angen arnynt er mwyn gallu cyflawni eu rolau yn effeithiol. Bob blwyddyn, bydd y tîm Datblygu AD yn casglu anghenion Hyfforddiant gan Aelodau Etholedig pan gynhelir eu Hadolygiadau Datblygiad Personol, ynghyd ag ymgynghori â'r Uwch Dîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn adnabod a chynllunio cyfleoedd datblygu perthnasol.

Mae'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau (atodiad 1) yn nodi'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig drwy'r tîm Datblygu AD yn ystod 2019/20. Mae'r cynllun yn ddogfen sy'n datblygu ac yn ddogfen sy'n cael ei hadolygu a'i haddasu yn rheolaidd gyda diweddariadau yn cael eu cylchredeg yn chwarterol i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r cynllun hefyd yn cael ei gylchredeg i bobl allweddol eraill er mwyn sicrhau bod cyrsiau datblygu penodol

hefyd ar gael i gynulleidfaoedd ychwanegol; gan gynnwys aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig fel bo'n briodol.

Mae'r daflen diweddariad chwarterol yn cael ei chylchredeg i bob Aelod Etholedig ac yn cael ei harddangos yn Lolfa'r Aelodau gan ddarparu gwybodaeth ar y digwyddiadau hyfforddiant arfaethedig. Gweler Atodiad 2 am enghraifft ddrafft.

Yn ogystal â'r cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan y tîm Datblygu AD, mae'r Aelodau Etholedig hefyd yn cael sesiynau briffio ar ddydd Iau cyntaf pob mis. Gweler Atodiad 3 am fanylion.

## 3. GWERTHUSO CYRSIAU

Yn dilyn pob digwyddiad, bydd ffurflen werthuso bapur yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau Etholedig er mwyn iddynt allu cadarnhau pa mor berthnasol/priodol oedd cynnwys y cwrs a hefyd er mwyn adnabod unrhyw anghenion Hyfforddiant ychwanegol sydd ganddynt. Mae fersiynau electronig o'r ffurflen hefyd ar gael.

## 4. COFNODI PRESENOLDEB

Mae'r Tîm Datblygu AD yn cofnodi data am gyrsiau a gynigir/y rhai a fynychir a'r rhai a wrthodir gan bob Aelod Etholedig, o fewn y systemau AD. Yn ychwanegol at hyn, mae Aelodau Etholedig yn cael eu hatgoffa yn ystod pob digwyddiad o'r angen i sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i gofnodi manylion yr hyfforddiant ar eu cofnodion hyfforddiant electronig sydd yn ei dro yn eu cynorthwyo i gwblhau eu Hadroddiadau Blynyddol. Unwaith y bydd y manylion hyn wedi eu cwblhau byddant yn ymddangos ar wefan y Cyngor o dan enw bob Aelod Etholedig.

## 5. E-DDYSGU

Mae E-ddysgu yn cael ei hyrwyddo fel dull o ddysgu cyfunol ac mae ar gael i'r holl staff, Aelodau Etholedig/Aelodau Archwilio/Aelodau Lleyg/Aelodau Pwyllgor Safonau ac ati.

## 6. SGILIAU TGCH

Mae'r tîm Datblygu AD yn cydweithio'n agos â'r tîm TGCh er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ddigidol ar gael i Aelodau Etholedig. Fel rhan o'r gwaith partneriaeth hwn, mae llawlyfr TGCh wedi'i gynhyrchu a'i ddosbarthu i Aelodau Etholedig.

Mae cefnogaeth barhaus ar gael gan y tîm Datblygu AD a'r tîm TGCh ar ffurf sesiynau 'galw heibio'.

**CHERIE DUFFY – SWYDDOG DATBLYGU AD DAN HYFFORDDIANT A**

**MIRIAM WILLIAMS – RHEOLWR DATBLYGU AD**

**MAWRTH 2020**

| RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19<br><br>(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd) | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Bason | **Tachwedd 2019** |
| Materion Diogelu 'Mop up' | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **14eg Tachwedd 2019** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **Cyflwyniad gan Dafydd Bulman a Rachel Williams.**<br>**Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad: i'w benderfynu** |
| "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)". | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **25ain Chwefror 2019**<br>**16eg Hydref 2019 ('mop up')** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **28ain Mawrth 2019**<br>**'Mop up' 2019/2020** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | E-ddysgu | **Parhaus** |
| Dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol – hyfforddiant gweithredu am ddim | Pob Aelod Etholedig | Natalie Brimble<br>TrosGynnal Plant<br>North Wales Advocacy | **5ed Mawrth 2020** |
| CLILC – Rhaglen Arweinyddiaeth | Aelodau Etholedig Enwebedig | Gweithdai Rhanbarthol | **Medi – Tachwedd 2019** |
| Trwyddedu - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad: Tachwedd 2019** |
| Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cynllunio<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion Mewnol | **16eg Hydref 2019** |
| Delio â Materion Heriol | Pob Aelod Etholedig | David Jones - ACAS | **26th September 2019** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithredu'r Cyfansoddiad | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Arweinyddiaeth Gymunedol a Nodi Grantiau | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cadeirio Cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig | Ar gael ar y porth Learning@Wales | **Parhaus** |
| Camdriniaeth yn y Cartref | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu**<br>**Mawrth / Ebrill 2020** |

**SGILLIAU TGCH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnyddio iPads | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | Parhaus |
| General ICT Skills | Pob Aelod Etholedig – Fel angen | Mewnol | Parhaus |

**MODIWLAU E-DDYSGU**

**Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.**

| Datblygiad Aelodau | Yr Iaith Gymraeg | Iechyd a Diogelwch |
|---|---|---|
| - Moesau a Safonau (i)<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i)<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i)<br>- Cadeirio Cyfarfodydd (i)<br>- Rhianta Corfforaethol (i)<br>- Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i)<br>- Cyflwyniad I Graffu (i) | - Croeso Cymraeg Gwaith (i)<br>- Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i)<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch (i)<br>- Glendid Bwyd (i) |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **(M)**<br>- Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i)<br>- Gwybodaeth Iechyd (i)<br>- Ymwybyddiaeth Straen (i)<br>- Cadernid Personol (i)<br>- Atal (i) **(M)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i)<br>- Cynllunio Cyn Ymddeol (i)<br>- Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i)<br>- Caethwasiaeth Fodern (i) **(M)** | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) **(M)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol (i)<br>- Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i)<br>- Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i)<br>- Rhoi a Derbyn Adborth (i)<br>- Sgiliau Cyfarfod (i)<br>- Sgiliau Cyflwyno (i)<br>- Deallusrwydd Emosiynol (i)<br>- Hunan Ddatblygiad (i)<br>- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) | - Ymwybyddiaeth Seibr **(M)** |

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

**Noder bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future



# Rhaglen Hyfforddiant i Aelodau Etholedig

Rhestrir isod y Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu a gynhelir rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mawrth 2020

## Ymagwedd Genedlaethol tuag at Eiriolaeth Statudol

Nod y sesiwn hon yw deall rôl eiriolydd a'r gwahanol fathau o eiriolaeth. Bydd y cwrs hwn yn darparu mwy o wybodaeth am hanes yr Ymagwedd Genedlaethol a'r egwyddorion cyffredinol.

**05 Mawrth 2020**

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES



## Hyfforddiant Trwyddedu

Bydd y sesiwn hyfforddiant hon yn rhoi trosolwg o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac yn canolbwyntio ar faterion trwyddedu perthnasol megis ceisiadau trwyddedu, gwrandawiadau'r is-bwyllgor trwyddedu ac adolygiadau trwydded.

**06 Chwefror 2020**

## Porth E-Ddysgu

Nodwch os gwelwch yn dda fod rhaid i'r holl staff ac Aelodau Etholedig gwblhau'r modiwlau E-Ddysgu isod. Cliciwch ar yr eicon isod i gael mynediad i'r porth E-ddysgu:


















Canllawiau TG: Gweler y Llawlyfr TG i Aelodau Etholedig sydd ynghlwm

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori Aelodau'r Pwyllgor Safonau am yr hyfforddiant arfaethedig ar gyfer 2020/2021 a chanfod unrhyw anghenion hyfforddiant pellach.** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@anglesey.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Mae Aelodau Etholedig y Cyngor yn cael cynnig Hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo â'u rolau ac fe ystyrir rhai pynciau hyfforddiant yn rhai gorfodol. Bydd Aelodau Cyfetholedig hefyd yn cael cynnig hyfforddiant ar wahanol faterion; mae hyn yn seiliedig ar yr hyfforddiant a gynigir i Aelodau Etholedig, ond yn cael ei dargedu yn unol â'r Pwyllgor y maent wedi'i benodi arno.

1.2 Gan fod mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi eu penodi o'r newydd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 (4 aelod annibynnol ac 1 cynrychiolydd Cyngor Sir), rhagwelir y bydd hyfforddiant yn chwarae rhan sylweddol yn amserlen y Pwyllgor ar gyfer 2020/21.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa Hyfforddiant sydd wedi'i adnabod fel Hyfforddiant hanfodol / defnyddiol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.

## 2.0 HYFFORDDIANT

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o Hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| Cod Ymddygiad | Mae'n rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau ddilyn y Cod Ymddygiad. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Aelodau fynychu o leiaf | Modiwl E-ddysgu ar "Foeseg a Safonau"<br><br>Hyfforddiant Ystafell Ddosbarth i'w ddarparu yn fewnol gan y Swyddog | Ar gael ar gais<br><br>Ebrill 2020 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | un sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn ystod pob tymor llawn, gyda phresenoldeb o'r fath i ddigwydd yn ystod y chwe mis yn dilyn cael eu hethol. | Monitro. | |
| Caniatâd Arbennig | Gall Cynghorwyr Tref a Chymuned ymgeisio am ganiatâd arbennig. Bydd Panel o Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried cais ysgrifenedig am ganiatâd arbennig mewn Gwrandawiad. | Sesiwn hyfforddiant ystafell ddosbarth ar Ganiatâd Arbennig (y sail ar gyfer rhoi caniatâd arbennig / y fethodoleg ar gyfer cynnal gwrandawiadau ac ati) i'w darparu'n fewnol gan y Swyddog Monitro.<br><br>Bydd hyfforddiant penodol ar y cais am ganiatâd arbennig gerbron y Panel yn cael ei ddarparu cyn pob Gwrandawiad am Ganiatâd Arbennig ac fe'i ddarperir yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | Haf 2020<br><br>Yn ôl yr angen yn ystod 2020/2021 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) / Panel Dyfarnu Cymru (PDC) – adolygiad o achosion | Yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau (Mawrth a Medi) darperir diweddariad ar yr achosion sydd wedi eu hystyried gan OGCC a PDC. | Darperir dwy adroddiad y flwyddyn ac fe gynhelir trafodaeth yn y Cyfarfodydd. | Mawrth 2020<br><br>Medi 2020<br><br>Mawrth 2021 |
| Cyfansoddiad CSYM | Darparu trosolwg cyffredinol o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y ffordd y gallai effeithio ar y Pwyllgor Safonau. | Sesiwn hyfforddiant gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ar y Cyfansoddiad i'w chynnal yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | Dyddiad i'w gadarnhau - 2020 |
| Cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol Datrysiad Lleol | Mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn hanfodol i'r broses Datrysiad Lleol yn unol â'r Protocol sydd wedi'i fabwysiadu gan y Pwyllgor ac sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Arweinwyr Grwpiau. | Darparwr allanol i gynhyrchu a darparu sesiwn hyfforddiant bwrpasol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn seiliedig ar Brotocol Datrysiad Lleol CSYM. | Mai / Mehefin 2020 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau | Er na ragwelir unrhyw Wrandawiadau yn y dyfodol agos, mae angen i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawiadau petai OGCC yn cyfeirio mater ar gyfer ei benderfynu. | Holi darparwr allanol – efallai y gellid gwneud hyn ar y cyd â Phwyllgor neu Bwyllgorau Safonau eraill? | I drafod ymhellach – a ystyrir hyn yn ofyniad ar gyfer 2020/2021 neu'r flwyddyn flaenorol? |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Seiber Ddiogelwch<br><br>GDPR | Hyfforddiant cyffredinol sydd wedi'i adnabod yn berthnasol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r rhestr o hyfforddiant a ofynnwyd amdano ar gyfer Aelodau Etholedig. | Modiwlau E-ddysgu | Ar gael yn ôl yr angen |
| Diogelu (Sylfaenol)<br><br>Trais yn erbyn merched; Prevent, Camfanteisio'n; Rhywiol ar Blant (CSE); Caethwasiaeth Fodern<br><br>Iechyd a Diogelwch<br><br>Trwyddedu* / Cynllunio*<br><br>* *os ar y Pwyllgor* | Dyma restr o'r hyfforddiant y gofynnir i Aelodau Etholedig ei gwblhau. Ni ystyrir bod y materion hyn yn berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau. | | I drafod ymhellach – yw Aelodau'n cytuno nad yw'r materion hyn yn berthnasol i'w rolau? |
| Cadeirio Cyfarfodydd | I'w gynnig i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sydd newydd eu penodi, os ydynt yn dymuno. | | Dyddiad i'w gadarnhau - 2020 |

**3.0 ARGYMHELLIAD**

I'r Pwyllgor Safonau benderfynu a yw'r cynllun hyfforddiant arfaethedig yn briodol / yn ddigonol ac adnabod unrhyw hyfforddiant pellach angenrheidiol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2019) a Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2019) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 17.09.2019.

2.2 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 2 (Gorfennaf – Medi 2019) at aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 8 Hydref 2019.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2019) at aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 8 Ionawr 2020

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 2 a Chwarter 3 **(Atodiadau 1-4)** yn cael eu dosbarthu i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1-4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-4** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor.

**ATODIAD 1**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2019) – 2019/2020 – Quarter 2 (July – September 2019)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-021785<br>(ii) 201901863 | 17.06.2019 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn / The Ombudsman has decided not to investigate the complaint. |

**ATODIAD 2**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2019) – 2019/2020 – Quarter 2 (July – September 2019)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT | | | | |
| | | | | |

Tudalen 34

**ATODIAD 3**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2019) – 2019/2020 – Quarter 3 (October - December 2019)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT | | | | |

Tudalen 35

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2019) – 2019/2020 – Quarter 3 (October – December 2019)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the Public | (i) 022185<br>(ii) 201904090 | 01.10.2019 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn. / Ombudsman has decided not to investigate the complaint. |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the Public | (i) 022230<br>(ii) 201904272 | 12.10.2019 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn. / Ombudsman has decided not to investigate the complaint. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Medi 2019 (Rhifyn 21) a Hydref 2019 (Rhifyn 22)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Coflyfr o Gwynion Côd Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Medi 2019 (Rhifyn 21) a'r Coflyfr ar gyfer Hydref 2019 (Rhifyn 22). Mae crynodeb o'r achosion yn Rhifyn 21 ynghlwm yn **ATODIAD 1** a Rhifyn 22 ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

## 2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r côd ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1** ac **ATODIAD 2**.

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Sili a Larnog - 201802547 | Honnwyd, er bod yr Aelod yn ymwybodol bod cwyn wedi'i chyflwyno i'r Cyngor ynghylch ei ymddygiad, methodd â datgan buddiant pan drafodwyd y materion yng nghyfarfodydd y Cyngor. | Datgelu a chofrestru buddiannau | Ar ôl adolygu'r wybodaeth o'i flaen, gan y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir a'r Aelod canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. | Dylai Aelodau gofio datgelu a chofrestru buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad.<br><br>Fe ddylai Aelodau gofio efallai bod ganddynt gysylltiad personol agos â rhywun y mae ganddynt anghydfod â nhw. |
| Cyngor Tref Amlwch - 201802863 | Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref Amlwch wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad yn ei ymddygiad tuag at Glerc y Cyngor mewn cyfarfod. | Hybu cydraddoldeb a pharch: nid dwyn gwarth ar y Cyngor | Fe wnaeth yr Ombwdsmon gyfweld detholiad o'r rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau o'r cyhoedd. Nid oedd y dystiolaeth yn cefnogi'r gwyn.<br><br>O dan Adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd tystiolaeth bod yr Aelod wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. | Caiff Aelodau eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cynnwys aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cynghori Cynghorau Cymuned y dylent gynnwys cyllideb ar gyfer hyfforddiant wrth osod eu symiau praesept. |
| Cyngor Sir Powys – | Honnwyd bod Aelod o Gyngor Sir Powys wedi torri'r Cod | Hybu cydraddoldeb | Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r gŵyn drwy adolygu gwybodaeth gan bartïon | Caiff Aelodau eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Darpariaeth Perthnasol y Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Pwyntiau Dysgu i Aelodau** |
|---|---|---|---|---|
| 201803813 & 201803815 | Ymddygiad drwy wneud sylwadau i'r wasg dro ar ôl tro am fusnes yr achwynydd, a achosodd i'r achwynydd deimlo ei fod yn cael ei fwlio a'i aflonyddu. | a pharch | perthnasol gan gynnwys yr achwynydd a'r Swyddog Monitro.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Roedd y materion y cyfeiriwyd atynt gan yr achwynydd yn gywir a chyhoeddus. Nid oedd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod yr Aelod wedi datgelu materion i'r wasg. | cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ystyrir hwn yn bwnc gorfodol yn CSYM (yn unol â phenderfyniad Arweinyddion Grwpiau). Fe ddylai Aelodau ystyried cwblhau'r cwrs e-ddysgu sydd ar gael, os nad oedd modd iddynt fynychu'r hyfforddiant ystafell ddosbarth a drefnwyd ym Mawrth 2019. Mae'r cwrs ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://learning.wales.nhs.uk/login/index.php |
| Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy – 201807788 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy wedi torri'r Cod Ymddygiad pan drefnodd i drosglwyddo data Cyngor i raglen storio electronig, allanol. Honnwyd bod yr Aelod wedi gweithredu'n amhriodol i berswadio staff y Cyngor i roi mynediad iddo i ffeiliau'r Cyngor, a'i fod wedi cyrchu'n | Gonestrwydd | Ar ôl cael gwybod, yn ystod gwrs yr ymchwiliad, bod yr Aelod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd y gŵyn bellach yn bodloni gofynion diddordeb cyhoeddus y prawf dau gam a therfynwyd yr ymchwiliad. | Bydd materion sy'n ymwneud â chyn Gynghorydd yn cael eu trin yn wahanol i Gynghorydd sydd yn dal mewn swydd etholedig, o ganlyniad i'w effaith ar y Prawf Budd y Cyhoedd.<br><br>Lle bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | amhriodol y wybodaeth a oedd ar gael iddo yn ystod y broses trosglwyddo ffeiliau. | | | ymchwilio i gŵyn, mae pedwar canlyniad y gall yr Ombwdsmon eu casglu:<br>(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;<br>(b) nad oes unrhyw gamau angen eu cymryd mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;<br>(c) bod y mater yn cael ei gyfeirio at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;<br>(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys.<br><br>Lle mae unigolyn yn aelod o fwy nag un awdurdod e.e. cyngor sir a chyngor cymuned / mwy nag un cyngor cymuned, gall yr Ombwdsmon ddefnyddio |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | opsiwn (c) neu (d) mewn perthynas â'r 'awdurdod perthnasol' arall ac nid yr un lle buodd yr aelod dorri'r rheolau. Er enghraifft, petai'r aelod hwn wedi bod yn aelod o'r Cyngor Sir hefyd, er nad oedd bellach yn aelod o'r Cyngor lle roedd yr achos o dorri rheolau wedi digwydd (Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy), gallai'r gosb ar gyfer torri rheolau Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy fod wedi eu gweithredu mewn perthynas ag ef yn ei gapasiti fel aelod o'r cyngor sir. |
| Cyngor Cymuned Cwmllynfell - 201704948 | Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Cwmllynfell wedi dangos ymddygiad amharchus a bwlio tuag at y Clerc (ar y pryd) yn ystod dau gyfarfod. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Yn dilyn ymchwiliad, canfu'r Ombwdsmon: - bod tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i'r Clerc blaenorol wrth godi materion o natur bersonol, nad oedd yn gysylltiedig â | https://democracy.npt.gov.uk/mgAi.aspx?ID=31042&LLL=1 Mae gwybodaeth mewn perthynas â'r mater yn gyfyngedig ar wefan |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | pherfformio dyletswyddau'r Clerc, yn ystod yr ail gyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd. Ystyriwyd bod gweithredoedd yr Aelod yn groes i un o Reolau Sefydlog y Cyngor; AC<br>- bod tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi arddangos ymddygiad bwlio tuag at y Clerc yn y cyfarfod hwn.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Siriol Castell-nedd Port Talbot i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.<br><br>Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod ymddygiad yr Aelod o ran yr ail gyfarfod yn torri paragraffau 4(b) a 4(c) o God Ymddygiad y Cyngor. Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor Safonau bod yr Aelod, wrth ymddwyn fel hyn yn ystod y cyfarfod, hefyd wedi dwyn anfri ar swyddfa'r aelod trwy dorri paragraff 6(1)(a). Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau gerydd i'r Aelod am dorri'r Cod. | NPTCBC ond mae'r ddolen uchod yn cyfeirio at y mater. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Parc Caia – 201805133 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Parc Caia wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau, ym mis Hydref 2019, pan gyflwynasant gais am arian ar gyfer prosiect cymunedol, lle honid fod gan yr aelod fuddiant, a hynny yn groes i gyngor y Clerc. Honnwyd y gall ymddygiad yr Aelod ddwyn anfri ar y Cyngor. | Datgelu a chofrestru buddiannau | Sefydlodd yr ymchwiliad fod y Clerc wedi cynghori y gallai'r Cyngor ystyried cais am arian a oedd yn fwy na'r uchafswm cytunedig. Datgelodd yr aelod fuddiant ac nid oedd dim tystiolaeth ei fod yn ceisio dylanwadu ar y broses penderfyniadau.<br><br>Felly, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. | Fe ddylai Aelodau gofio datgelu diddordebau personol/niweidiol yn unol â'r Cod Ymddygiad. |
| Cyngor Sir Powys - 201803272 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Sir Powys wedi torri'r Cod Ymddygiad o ran cysylltiad cyflenwadau dŵr ei ddau eiddo ac ynghylch ei weithredoedd sy'n ymwneud â'i safle carafanau. | Atebolrwydd a bod yn agored | Dechreuwyd ymchwiliad i ystyried a oedd yr Aelod wedi torri rhan o'r cod sy'n ymwneud ag anfri. Cafwyd copïau o ddogfennau perthnasol a rhannwyd y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr ymchwiliad gyda'r aelod, cyn iddo gael ei gyfweld yn ffurfiol.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi torri'r Cod ymddygiad. | |
| Cyngor Sir Ddinbych - | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn am | Hybu cydraddoldeb a | Yn ystod yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol | Caiff Aelodau eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 201900044 | Aelod o Gyngor Sir Ddinbych. Honnwyd y bu ymddygiad yr Aelod yn amhriodol ac amharchus ac wedi torri'r Cod Ymddygiad. | pharch | gan gynnwys yr Achwynwr, a'r Swyddog Monitro.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth i gefnogi'r pryderon a godwyd, a chanfu nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. | cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ystyrir hwn yn bwnc gorfodol yn CSYM (yn unol â phenderfyniad Arweinyddion Grwpiau). Fe ddylai Aelodau ystyried cwblhau'r cwrs e-ddysgu sydd ar gael, os nad oedd modd iddynt fynychu'r hyfforddiant ystafell ddosbarth a drefnwyd ym Mawrth 2019. Mae'r cwrs ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://learning.wales.nhs.uk/login/index.php |
| Cyngor Tref Prestatyn - 201900045 | Honnwyd y bu ymddygiad yr Aelod yn amhriodol ac amharchus ac wedi torri'r Cod Ymddygiad. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Yn ystod yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys yr Achwynwr, a'r Swyddog Monitro.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth i gefnogi'r pryderon a godwyd, a chanfu nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. | Caiff Aelodau eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ystyrir hwn yn bwnc gorfodol yn CSYM (yn unol â phenderfyniad Arweinyddion Grwpiau). Fe ddylai Aelodau ystyried cwblhau'r cwrs e-ddysgu sydd ar gael, os nad oedd modd iddynt fynychu'r hyfforddiant ystafell |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Darpariaeth Perthnasol y Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Pwyntiau Dysgu i Aelodau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddosbarth a drefnwyd ym Mawrth 2019. Mae'r cwrs ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://learning.wales.nhs.uk/login/index.php |
| Cyngor Cymuned Sili a Larnog - 201900025 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Sili a Larnog wedi torri'r Cod Ymddygiad pan honnwyd iddo ymosod yn gorfforol ar rywun. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith | Gohiriwyd ymchwiliad yr Ombwdsmon hyd nes y derbyniwyd canlyniad erlyniad troseddol a wnaed yn erbyn yr Aelod, a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad. Clywyd yr achos gan y Llys Ynadon; ni chafwyd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol gan dyst i gefnogi'r digwyddiad honedig a chanfu'r aelod yn ddieuog.<br><br>Gan hynny, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad yn yr achos hwn. Canfu'r Ombwdsmon, o dan adran a69(4)(a) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, nad oedd tystiolaeth bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod. | Bydd Aelod sy'n derbyn dedfryd o garchar (boed hynny'n ddedfryd ohiriedig neu beidio) am gyfnod o ddim llai na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy yn cael eu gwahardd fel aelod am gyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag, gallai cosb llai olygu torri'r Cod Ymddygiad er nad yw'n waharddiad awtomatig. |
| Cyngor Tref Llandrindod - 201803394 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref | Hybu cydraddoldeb a pharch | Cafwyd copïau o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys cofnodion cymeradwy'r ddau gyfarfod, a | Mae'r canlyniad yn dangos bod yr Ombwdsmon yn ystyried effaith y torri rheolau |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | Llandrindod wedi cyrchu cyfrifiadur y Cyngor yn amhriodol, wedi cuddio gwybodaeth o'r cyfrifiadur oddi wrth y Cyngor ac wedi methu â datgelu buddiant personol a niweidiol mewn materion dan ystyriaeth y Cyngor. Honnwyd hefyd bod yr aelod wedi defnyddio ymddygiad bwlio tuag at y Clerc mewn dau gyfarfod, yn benodol. | | chynhaliwyd cyfweliadau dros y ffon gyda thystion perthnasol. Rhannwyd y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr ymchwiliad gyda'r aelod, cyn iddo gael ei gyfweld yn ffurfiol.<br><br>Canfu'r ymchwiliad nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn modd bwlio, wedi atal y Cyngor rhag cyrchu gwybodaeth yr oedd ganddo hawl iddi neu wedi defnyddio ei safle'n anweddus. Roedd gan yr aelod hawl i wneud sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor ac roedd ganddo resymau dilys dros ei weithredoedd.<br><br>Canfu'r ymchwiliad dystiolaeth bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at y Clerc yn ystod un cyfarfod, a'i fod wedi methu â chymryd camau priodol o ran buddiant personol a niweidiol. Serch hynny, bu'r Aelod yn ymddwyn yn ddidwyll ac er budd orau'r Cyngor. Yn ychwanegol, dangosodd lefel rhesymol o fyfyrdod personol ers adeg y digwyddiadau. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o ran y | wrth ystyried pa gamau i'w cymryd; nid yw torri'r Cod o reidrwydd yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, fe ddylai Aelodau fod yn ofalus i beidio â dibynnu ar achos o'r fath fel amddiffyniad. Fe ddylai Aelodau sicrhau eu bod yn dilyn darpariaethau'r Cod Ymddygiad. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | materion yr ymchwiliwyd iddynt. | |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr - 201707582 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn am aelod o Gyngor Tref Pen-y-Bont ar Ogwr. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgelu buddiant personol a niweidiol yn ystod cyfarfod y Cyngor a'i fod wedi parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud â'r mater hwnnw. Yn ychwanegol, honnwyd bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth yn ystod y cyfarfod ac wedi ymddwyn fel bwli tuag at Glerc y Cyngor. | Datgelu a chofrestru buddiannau | Yn ystod yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys yr Achwynwr, a'r Cyngor.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi methu â datgan yn briodol, yn ystod cyfarfod y Cyngor, fod ganddo fuddiant personol a niweidiol. Yn ychwanegol, roedd gweithredoedd yr aelod o ran ei fethiant i adael yr ystafell a gwneud sylwadau hefyd yn awgrymu methiant i gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod.<br><br>Ymhellach, penderfynodd yr Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at y Clerc yn ystod y cyfarfod hwnnw.<br><br>Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, ystyriodd yr Ombwdsmon yr arfer o ddatgelu buddiannau o fewn y Cyngor ar yr adeg berthnasol, y lleddfiad a ddarparodd yr Aelod a thystiolaeth ddiweddar a oedd yn | Caiff Aelodau eu hatgoffa am eu dyletswyddau mewn perthynas â datgelu diddordebau personol/sy'n rhagfarnus, yn unol â'r Cod Ymddygiad.<br><br>Gellir gweld Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol / sy'n Rhagfarnu yma.<br><br>http://monitor.anglesey.gov.uk/Journals/n/h/o/Personal-and-Prejudicial-Interest---A-Briefing-Note-to-Members.pdf<br><br>http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/c/f/c/Nodyn-Briffio-i-Aelodau---Diddordeb-Personol-a-Rhagfarnol.pdf<br><br>Mae'r canlyniad yn dangos bod yr Ombwdsmon yn ystyried effaith y torri rheolau wrth ystyried pa gamau i'w |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | cadarnhau gwelliant sylweddol ym mherthnasoedd gwaith y Cyngor.<br><br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai mynd â materion ymhellach er budd y cyhoedd ac na ddylid cymryd camau o ran y materion yr ymchwiliwyd iddynt. | cymryd o ran y Cod Ymddygiad. Mae'n dangos nad yw torri'r Cod o reidrwydd yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, fe ddylai Aelodau fod yn ofalus i beidio â dibynnu ar achos o'r fath fel amddiffyniad. Fe ddylai Aelodau sicrhau eu bod yn dilyn darpariaethau'r Cod Ymddygiad. |
| Cyngor Tref Pen y bont ar Ogwr - 201707583 | Derbyniodd yr Ombwdmson gŵyn am aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Pen-y-Bont ar Ogwr ("y Cyngor"). Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgelu buddiant personol a niweidiol yn ystod cyfarfod y Cyngor a'i fod wedi parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud â'r mater hwnnw. Yn ychwanegol, honnwyd bod yr Aelod | Datgelu a chofrestru buddiannau | Yn ystod yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys yr Achwynwr, a'r Cyngor.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi methu â datgan yn briodol, yn ystod cyfarfod y Cyngor, fod ganddo fuddiant personol a niweidiol. Yn ychwanegol, roedd gweithredoedd yr aelod o ran ei fethiant i adael yr ystafell a gwneud sylwadau hefyd yn awgrymu methiant i gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod. | Mae'r mater hwn yn debyg o ran ffeithiau i'r mater uchod sy'n berthnasol i'r un Cyngor.<br><br>Caiff Aelodau eu hatgoffa am eu dyletswyddau mewn perthynas â datgelu diddordebau personol/sy'n rhagfarnus, yn unol â'r Cod Ymddygiad.<br><br>Gellir gweld Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol / sy'n Rhagfarnu yma. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | wedi defnyddio ei safle'n amhriodol mewn ymgais i ennill mantais iddo'i hun neu i'w gydnabod personol. | | Fodd bynnag, ni pherswadiwyd yr Ombwdmson fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr aelod wedi defnyddio ei safle mewn ymgais i ennill mantais, fel yr awgrymwyd.<br><br>Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, ystyriodd yr Ombwdsmon yr arfer o ddatgelu buddiannau o fewn y Cyngor ar yr adeg berthnasol a'r lleddfiad a ddarparodd yr Aelod.<br><br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai mynd â materion ymhellach er budd y cyhoedd ac na ddylid cymryd unrhyw gamau o ran y materion yr ymchwiliwyd iddynt. | http://monitor.anglesey.gov.uk/Journals/n/h/o/Personal-and-Prejudicial-Interest---A-Briefing-Note-to-Members.pdf<br><br>http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/c/f/c/Nodyn-Briffio-i-Aelodau---Diddordeb-Personol-a-Rhagfarnol.pdf<br><br>Mae'r canlyniad yn dangos bod yr Ombwdsmon yn ystyried effaith y torri rheolau wrth ystyried pa gamau i'w cymryd o ran y Cod Ymddygiad. Mae'n dangos nad yw torri'r Cod o reidrwydd yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, fe ddylai Aelodau fod yn ofalus i beidio â dibynnu ar achos o'r fath fel amddiffyniad. Fe ddylai Aelodau sicrhau eu bod yn dilyn darpariaethau'r Cod |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ymddygiad. |
| Cyngor Cymuned Trefeurig - 201806748 | Derbyniodd yr Ombwdmson gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Trefeurig wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod, yn ystod trafodaeth am gais cynllunio ar gyfer datblygiad lleol, wedi methu â datgan buddiant yn y mater. | Datgelu a chofrestru buddiannau | Yn ystod yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys yr achwynwr a Chlerc y Cyngor.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu o ran y materion yr ymchwiliwyd iddynt. | |
| Cyngor Tref Prestatyn - 201700947 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn y gallai Aelod o Gyngor Tref Prestatyn fod wedi defnyddio ymddygiad bygythiol a difrïol tuag at gyd-aelod y Cyngor ac wedi ymddwyn mewn modd ymosodol a gwrthdrawiadol mewn dau gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2016 a Mai 2017. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Cafodd yr Ombwdsmon wybodaeth berthnasol am y mater gan y Cyngor a bu'n cyfweld â sawl tyst. Cafodd yr Aelod ei gyfweld a darparodd ei ymateb i'r gŵyn.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Aelod fod wedi torri'r Cod Ymddygiad a chyfeiriodd y mater i ystyriaeth Pwyllgor Safonau'r Cyngor.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod yr Aelod wedi methu â dangos parch | https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=212&MId=5998&Ver=4&LLL=1<br><br>Gellir gweld yr adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych fel eitem Agenda rhif 4 ar y ddolen uchod.<br><br>Mae'r amrywiaeth o gosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys: |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Darpariaeth Perthnasol y Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Pwyntiau Dysgu i Aelodau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | ac ystyriaeth at Swyddogion Heddlu a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2016 a thuag at ei gyd-aelod yn y cyfarfod ym mis Mai 2017.<br><br>Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor Safonau y gallai ymddygiad yr Aelod yn ystod y ddau gyfarfod ddwyn anfri ar y Cyngor.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Safonau, ar sail y canfyddiadau, y dylid gwahardd yr aelod o swyddfa'r Cyngor am gyfnod o bedwar mis. | • ni ddylid cymryd camau pellach mewn perthynas â'r methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; neu<br><br>• y dylai'r Aelod dderbyn cerydd; neu<br><br>• y dylai'r Aelod gael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod perthnasol am gyfnod o ddim mwy na 6 mis. |
| Cyngor Tref Castell-nedd - 201707990 | Honnwyd bod aelod o Gyngor Tref Castell-nedd wedi gwneud sylwadau bod un o breswylwyr Castell-nedd wedi haeddu cael ei lofruddio. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Canfu'r ymchwiliad bod sylwadau digymell yr Aelod am y dioddefwr yn amharchus a chas a, er ei bod efallai'n farn breifat yr Aelod, nid oedd rheswm dros ei mynegi'n gyhoeddus.<br><br>Yng ngoleuni effaith sylwadau'r Aelod ar ddinasyddion Cyngor Tref Castell-nedd, nifer ohonynt sydd o'r farn nad yw'r Aelod bellach yn gynrychiolydd addas, a'r effaith ar enw da'r Cyngor Tref ei hun, daeth yr Ombwdmson i'r casgliad y gallai'r aelod fod wedi torri paragraffau 6(1)(a) o'r Cod | https://democracy.npt.gov.uk/mgAi.aspx?ID=33107&LLL=1<br><br>Mae cofnodion y Pwyllgor perthnasol o Bwyllgor Safonau Cyngor Tref Castell-nedd i'w gweld ar y ddolen uchod.<br><br>Mae'r amrywiaeth o gosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys: |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ymddygiad.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Siriol Castell-nedd Port Talbot i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwnnw.<br><br>Canfu'r Pwyllgor Safonau bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad a chafodd ei gwahardd am bedair mis. | • ni ddylid cymryd camau pellach mewn perthynas â'r methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; neu<br>• y dylai'r Aelod dderbyn cerydd; neu<br>• y dylai'r Aelod gael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod perthnasol am gyfnod o ddim mwy na 6 mis. |
| Cyngor Cymuned Mathern - 201802799 | Yn ystod gwrandawiad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ar 19 Gorffennaf 2018, cafodd datganiad a llythyr dilynol ei wneud gan aelod o Gyngor Cymuned Mathern at y Panel Dyfarnu. Roedd y datganiad a'r llythyr yn cynnwys iaith a oedd yr un fath neu iaith a oedd yn debyg i'r hyn yr oedd y Panel Dyfarnu wedi'i | Hybu cydraddoldeb a pharch | Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai rhywun rhesymol yn dod i'r casgliad bod gweithredoedd yr Aelod yn effeithio ar enw da o ran Swyddfa'r Aelod a'r Awdurdod y mae'n aelod ohono, ac y gallent fod yn gyfystyr â thorri paragraff 6 (1) (a) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon hefyd o'r farn y byddai cyfyngu hawl yr Aelod i ryddid mynegiant o dan erthygl 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau a buddiannau | Ystyriwyd yr achos hwn gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 – gweler y ddolen:<br><br>http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=3526&Ver=4&LLL=1<br><br>Mae'n ymwneud â Chynghorydd Graham Down o Gyngor Cymuned Mathern. Cafodd yr achos |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | gynghori y byddai'n gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio i ganfod a oedd gweithredoedd yr Aelod yn gyfystyr â thorri paragraff 6 (1) (a) o'r Cod Ymddygiad ar y sail bod y mater wedi dod i'w sylw o ganlyniad i'r ymchwiliad a oedd yn cael ei glywed gan Banel Dyfarnu Cymru ar 19 Gorffennaf. | | eraill.<br><br>Cyfeiriodd yr Ombwdsmon y mater at Banel Dyfarnu Cymru.<br><br>Fodd bynnag, ar 17 Gorffennaf 2019, penderfynodd y Panel Dyfarnu na ddaeth y mater i sylw'r Ombwdsmon o ganlyniad i'r ymchwiliad a glywyd ar 19 Gorffennaf 2018, gan i'r ymchwiliad hwnnw ddod i ben ar 20 Rhagfyr 2017 (pan gyfeiriwyd y mater at Banel Dyfarnu Cymru). Felly penderfynodd na fyddai'n ystyried yr achos. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. | "gwreiddiol" yn erbyn y Cynghorydd Down ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau hwn yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019 (eitem 7). Er mwyn eich atgoffa, cafodd ei ddarganfod bod y Cynghorydd Down wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy wneud sylwadau homoffobaidd yn ei rôl fel Cynghorydd ar Gyngor Sir Fynwy. Gellir gweld copi o benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru yma: https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0032017-018ct-cynghorydd-graham-down?_ga=2.11241460.1389510225.1582909016-98695141.1582909016<br><br>Mae copi o'r penderfyniad olaf (mewn perthynas â'r nodyn hwn) gan Banel Dyfarnu Cymru i'w weld yma: https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0012018-019ct- |

| Enw’r Cyngor | Crynodeb o’r Gŵyn | Darpariaeth Perthnasol y Cod | Crynodeb o’r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynghorydd-graham-down-0?_ga=2.13674487.1389510225.1582909016-98695141.1582909016 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (cyfnod cyhoeddi Medi 2019 – Chwefror 2020)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan y PDC

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

**2.1 Penderfyniadau a wnaed**

19.11.2019 – Cynghorydd Edwin Roderick o Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog [APW/002/2018-019/CT]

27, 28 a 29.01.2020 – Cynghorydd Aaron Shotton o Gyngor Sir Fflint [APW/001/2019-020/CT]

**2.2 Apeliadau a benderfynwyd**

Dim

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodeb(au) achosion.

**Crynodeb o'r Achosion Tribiwnlys – Medi 2019 – Chwefror 2020**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Cynghorydd Edwin Roderick o Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br><br>Dyddiad Gwrandawiad – 19.11.2019 | Honiad bod Cynghorydd Roderick wedi torri Codau Ymddygiad Cyngor Sir Powys ("y Cyngor") a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr Awdurdod") drwy:<br>(i) roi slap i ben ôl Cynghorydd benywaidd cyn cyfarfod o'r Awdurdod (honiad bod paragraffau 4 (b) a 6 (1)(a) o'r Côd wedi cael eu torri);<br>a<br>(ii) Bygwth datgelu gwybodaeth am y Cynghorydd pe byddai'n parhau â'r gŵyn (honiad bod paragraffau 4 (b), 6(1)(a) a 7(a) o'r côd wedi cael eu torri).<br><br>Roedd amgylchiadau'r gŵyn gyntaf fel a ganlyn: ychydig cyn cyfarfod o'r Awdurdod ar 8 Rhagfyr 2017, honnir bod y Cynghorydd Roderick wedi rhoi slap i ben ôl yr achwynydd tra'r oedd y cynghorwyr yn ymgynnull ar gychwyn y cyfarfod. Gwnaeth yr | Roedd y Tribiwnlys o'r farn mai gwaharddiad dros dro oedd y gosb fwyaf perthnasol. Roedd yr ymddygiad yn rhy ddifrifol i beidio â chymryd unrhyw gamau ac nid oedd unrhyw agwedd benodol o ymddygiad y Cynghorydd yn golygu bod gwaharddiad rhannol yn briodol.<br><br>Mewn perthynas â'r achos cyntaf o dorri'r codau ymddygiad, wrth asesu difrifoldeb yr achos a'i ganlyniadau roedd y tribiwnlys o'r farn bod ymddygiad yr Ymatebwr wedi diraddio a chodi cywilydd ar yr achwynydd ac ystyriwyd bod hynny'n gwbl annerbyniol mewn unrhyw sefyllfa gyhoeddus. Roedd y Cynghorydd wedi gwadu difrifoldeb a natur y digwyddiad tan yn ddiweddar, ac mae'n bosib bod hynny wedi ymestyn y cyfnod o ofid yr oedd yr achwynydd wedi'i ddioddef. Honnwyd nad oedd y Cynghorydd wedi cyfaddef ar unwaith oherwydd nad oedd gan y Cynghorydd ddealltwriaeth dda o'r côd ymddygiad (er bod y Cynghorydd wedi derbyn hyfforddiant ar gôd ymddygiad yr Awdurdod ac wedi llofnodi ymrwymiad mewn perthynas â chodau ymddygiad yr | Mae rhannau perthnasol y Côd Ymddygiad fel a ganlyn:<br>• Paragraff 4 (b);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;"*<br>• Paragraff 6 (1) (a);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;"*<br>• Paragraff 7 (a);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;"*<br><br>Wrth ddod i benderfyniad a phenderfynu ar gosb briodol, ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos a sylwadau lliniaru'r Ymatebwr. Defnyddiodd y Tribiwnlys y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd dan adran 75(10) Deddf Llywodraeth Leol 2000, ystyriodd |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | achwynydd y gŵyn ar 5 Ionawr 2018.<br><br>Cododd yr ail gŵyn o ganlyniad i ddwy sgwrs a gafodd y Cynghorydd Roderick yn dilyn hynny, gyda Ms Doel, Cadeirydd yr Awdurdod ar y pryd, a Ms Foxley, y Swyddog Monitro ar y pryd. Yn ystod y sgwrs gyntaf ar 15 Ionawr 2018, dywedodd y Cynghorydd Roderick fod ganddo wybodaeth am ymddygiad yr achwynydd a fyddai o ddiddordeb i'w gŵr. Dehonglodd Ms Doel hynny i olygu ei fod yn bygwth datgelu'r wybodaeth pe bwrid ymlaen â'r gŵyn. Yn ystod yr ail sgwrs ar 23 Ionawr, honnwyd i'r Cynghorydd Roderick ddweud y byddai'n cyhoeddi gwybodaeth na fyddai'r achwynydd yn ei hoffi a dywedodd y byddai yn *"hang her out to dry"*.  Dyddiad cwyn Ms Doel oedd 4 Ebrill 2018.<br><br>Ar y cychwyn, gwadodd y Cynghorydd Roderick y ddwy gŵyn. Fodd bynnag, mewn | Awdurdod a'r Cyngor). Ystyriodd y Tribiwnlys y ffaith mai un digwyddiad yn unig oedd hwn ac, wrth edrych yn ôl, bod y Cynghorydd yn derbyn fod ei weithredoedd yn amhriodol ac nad oedd bwriad ganddo i fod yn amharchus ac roedd wedi cynnig ymddiheuro. Roedd y Tribiwnlys wedi ystyried nad oedd y Cynghorydd yn gyfarwydd â ffurfioldeb dwys ac ethos y byd pwyllgorau ac roedd yn derbyn ei fod wedi camfarnu, ond nad oedd yn bwriadu unrhyw falais.<br><br>Mewn perthynas â'r ail gŵyn, roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried bod "y bygythiadau a wnaed gan yr Ymatebwr gyfystyr â blacmel. Nid oedd yn glir i'r Tribiwnlys ar ba sail yr oedd yr Ymatebwr wedi gwadu ei fod wedi torri'r Côd, er iddo gyfaddef i fyrdwn yr honiadau mewn perthynas â'r gŵyn." Roedd y Tribiwnlys yn pryderu bod y Cynghorydd wedi ailadrodd yr ymddygiad ar ddau achlysur a'i fod wedi ceisio manteisio ar ei safle. Roedd y Tribiwnlys wedi cymryd i ystyriaeth hefyd bod y Cynghorydd wedi derbyn nad oedd wedi bod mor ystyriol ag y byddai wedi'i ddymuno wrth fynegi ei hun, a'i fod oherwydd hynny wedi dangos mewnwelediad; roedd wedi | Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Pwyllgor Nolan y mae egwyddorion craidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n deillio ohonynt.<br><br>Mae tudalen Bywgraffiad y Cynghorydd Roderick ar wefan Cyngor Sir Powys yn cadarnhau bod y gwaharddiad wedi cychwyn ar 20 Tachwedd 2019 ac y bydd yn dod i ben ar 20 Mawrth 2020.<br><br>https://powys.moderngov.co.uk/mgUserInfo.aspx?UID=550 |

| Enw | Crynodeb o’r Ffeithiau | Crynodeb o’r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | sylwadau pellach a gyflwynwyd gan ei gyfreithiwr mewn llythyr i’r Tribiwnlys, cadarnhaodd y Cynghorydd Roderick na fyddai’n “ceisio herio’r ffeithiau fel y’u cyflwynwyd i’r Tribiwnlys a’i fod yn derbyn ei fod wedi torri’r côd mewn perthynas â’r ddwy gŵyn y bydd y panel yn eu hystyried”.<br><br>Oherwydd bod y Cynghorydd wedi cyfaddef y ffeithiau a chyfaddef ei euogrwydd yn y llythyr a anfonwyd at y Tribiwnlys gan ei gyfreithiwr, penderfynodd y Tribiwnlys yn unfrydol bod y Cynghorydd wedi torri paragraffau 4 (b), 6(1)(a) a 7 (a) y Côd. | cyfaddef torri paragraff 4 (b) y Côd, yn anfwriadol, yn gynnar yn y broses.<br><br>O safbwynt mwy cyffredinol, roedd y Tribiwnlys o’r farn bod gan y Cynghorydd gasgliad cryf o eirdaon cymeriad ac nid oedd yn ymddangos bod yr ymddygiad oedd yn sail i’r gŵyn yn ymddygiad arferol iddo.<br><br>Dywedodd y Tribiwnlys bod y Cynghorydd yn hynod o ymroddedig i’w gymuned. Nododd nad oedd unrhyw gamymddwyn wedi’i gofnodi gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â’r Cynghorydd cyn hyn.<br><br>Daeth y Tribiwnlys i gasgliad unfrydol y dylid **gwahardd y Cynghorydd Roderick rhag gweithredu fel aelod o’r awdurdodau am gyfnod o 4 mis**.<br><br>Argymhellodd y Tribiwnlys hefyd y dylai’r Cynghorydd Roderick dderbyn hyfforddiant pellach mewn perthynas â’r Côd Ymddygiad.<br><br>Gellir gweld y penderfyniad ei hun drwy ddilyn y ddolen isod – https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0022018-019ct-cynghorydd-edwin-roderick | |

ATODIAD 1

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
| --- | --- | --- | --- |
| Cynghorydd Aaron Shotton o Gyngor Sir y Fflint<br><br>Dyddiad Gwrandawiad – 27,28 a 29.01.2020 | Honiad bod y Cynghorydd Shotton wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy fethu â chydymffurfio â Pharagraffau 6(1)(a), 7(a) a 7(b) y Côd Ymddygiad mewn perthynas â digwyddiadau penodol mewn perthynas â'i ymwneud â'i Gynorthwyydd Personol ("CP") yn 2012 a hefyd yn 2016 a 2017.<br><br>Y tri honiad oedd:<br><br>1. Bod Cynghorydd Shotton, yn ei gapasiti swyddogol neu fel arall, wedi defnyddio neu geisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo ef ei hun neu ei CP, neu i greu neu i osgoi anfantais iddo ef ei hun neu ei CP drwy roi cyfle iddi weld y cwestiynau cyn ei chyfweliad am swydd barhaol fel Cynorthwyydd Personol a hefyd a oedd o wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod. | Canfu'r Tribiwnlys Achos y ffeithiau materol **diamheuol** canlynol<br>• Mae'r Ymatebwr yn Gynghorydd ac yn gyn Arweinydd ar Gyngor Sir y Fflint ("y Cyngor"). Cafodd ei ethol i'r Cyngor am y tro cyntaf yn 1999 ac roedd yn Arweinydd y Cyngor o 2012 nes iddo ymddiswyddo yn 2019.<br>• Cafodd y cynorthwyydd personol ("CP") ei secondio i rôl CP i'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ar 28 Mai 2012. Cafodd y CP gyfweliad am swydd barhaol fel CP ar 29 Tachwedd 2012 ac fe'i penodwyd i'r swydd. Roedd yr Ymatebwr i fod i gymryd rhan yn y cyfweliad, fodd bynnag nid oedd yn bresennol.<br>• Derbyniodd yr Ymatebwr hyfforddiant ar Gôd Ymddygiad ar gyfer Aelodau ei Awdurdod yn 2013 a llofnododd ymrwymiad i lynu at y Côd.<br>• Roedd yr Ymatebwr wedi cael perthynas agos amhriodol gyda'r CP a oedd yn cynnwys cyfarfod â'i gilydd mewn gwestai ac anfon negeseuon testun o natur rywiol ("sexting") rhwng mis Ionawr 2016 a Mai 2017.<br>• Roedd yr Ymatebwr wedi defnyddio ceir llog yr oedd y Cyngor Sir wedi | Mae'r rhannau canlynol o'r Côd Ymddygiad yn berthnasol:<br>• Paragraff 6 (1) (a);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;"*<br>• Paragraff 7 (a);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;"*<br>• Paragraff 7 (b);<br>*"Rhaid i chi -*<br>*(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -*<br>*i. yn annoeth;*<br>*ii. yn groes i ofynion eich awdurdod;*<br>*iii. yn anghyfreithlon;*<br>*iv. ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;*<br>*v. yn amhriodol at ddibenion* |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | 2. Bod Cynghorydd Shotton wedi defnyddio, neu awdurdodi ei CP i ddefnyddio adnoddau'r awdurdod (llogi cerbydau):-<br>(i) yn annoeth<br>(ii) yn groes i ofynion yr awdurdod<br>(iii) yn anghyfreithlon<br>(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr oedd wedi cael ei ethol neu ei benodi iddo neu iddi;<br>(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu<br>(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.<br>a hefyd a oedd o oherwydd hynny wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n anfri ar ei swydd neu ei awdurdod.<br><br>3. Bod Cynghorydd Shotton wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod drwy anfon a/neu annog ei CP i anfon negeseuon amhriodol, gan | talu amdanynt ar 27 a 28 Chwefror 2016, 11 i 13 Ebrill 2016 a 21 a 22 Mai 2016 a oedd yn cynnwys eu defnyddio at ddibenion personol mewn perthynas â'r cyfarfodydd mewn gwestai.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos y canlynol mewn perthynas â'r ffeithiau materol yr oedd **anghytundeb yn eu cylch**:<br>• Roedd yr Ymatebwr wedi defnyddio ei safle yn amhriodol i roi mantais i'r CP drwy roi cyfle iddi weld y cwestiynau cyn ei chyfweliad.<br>• Nid oedd yr Ymatebwr yn ymwybodol, ac nid oedd disgwyl iddo fod yn ymwybodol, ei fod yn defnyddio cerbydau llog at ddibenion preifat ar gost y Cyngor.<br>• Roedd yr Ymatebwr wedi anfon ac annog y CP i anfon negeseuon amhriodol, gan gynnwys negeseuon o natur rywiol, yn ystod oriau gwaith.<br>• Cyn belled ag yr oedd unrhyw wahaniaethau yn yr adroddiadau, nid oedd angen dod i ganfyddiad ffurfiol ynghylch ffaith 2.4 yr oedd anghytundeb yn ei chylch, ynglŷn â hyd a lled unrhyw berthynas ac felly nid oedd yn effeithio ar asesiad o gredadwyedd yr Ymatebwr na'r CP. | *gwleidyddol; neu*<br>*vi. yn amhriodol at ddibenion preifat."*<br><br>Wrth ddod i benderfyniad a phenderfynu ar y gosb briodol, ystyriodd y Tribiwnlys Achos Erthygl 8 Siarter Hawliau Dynol Ewrop, sydd yn datgan fel a ganlyn:-<br>"1.Mae gan bawb hawl i barch at ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol a'i ohebiaeth.<br>2. Ni fydd awdurdod cyhoeddus yn ymyrryd ag arfer yr hawl hon ac eithrio'r hyn sy'n unol â'r gyfraith sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal anhrefn neu droseddu, i ddiogelu iechyd neu foesau, neu i ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill."<br><br>Wrth ddod i benderfyniad ynghylch y gosb, ystyriodd y Panel holl ffeithiau'r achos a'r sylwadau lliniarol a gyflwynwyd gan yr Ymatebwr. Defnyddiodd y Tribiwnlys Ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd dan adran 75(10) Deddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br>Mae tudalen fywgraffiad y Cynghorydd Shotton ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau y daw'r gwaharddiad i ben ar |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | gynnwys negeseuon o natur rywiol, yn ystod oriau gwaith.<br><br>Gwnaed yr honiadau ar ôl i ŵr y Cynorthwyydd Personol ddarganfod cyfres o negeseuon "WhatsApp" ac wedi iddo wneud cwyn i Brif Weithredwr yr Awdurdod Perthnasol ac yn dilyn ymchwiliad a arweiniodd at gamau disgyblu mewn perthynas â'r CP.<br><br>Mae manylion llawn am y ffeithiau wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad a gyhoeddwyd, er bod manylion am y trydydd honiad yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth mewn perthynas â'r honiad hon wedi cael ei hystyried mewn sesiwn breifat ac nid yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. | Mae'r penderfyniad ei hun yn fanwl iawn a gellir ei weld ar y ddolen – https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0012019-020ct-cynghorydd-aaron-shotton-0<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn mai gwaharddiad dros dro oedd y gosb fwyaf perthnasol.<br><br>Roedd yr ymddygiad mewn perthynas â Honiadau 1 a 3 yn "ddifrifol", ac roedd Honiad 3 yn "arbennig o ddybryd ac yn cynnwys y math o ymddygiad a fyddai fel arfer yn arwain at waharddiad am gyfnod hir neu ddatgymhwyso, yn arbennig o ystyried rôl holl bwysig yr Arweinydd o ran gwella diwylliant y Cyngor a datblygu ei enw da."<br><br>Yn ogystal â chyd-destun ffeithiol pob Honiad a brofwyd, ystyriodd y Tribiwnlys Achos y ffactorau gwaethygol a oedd hefyd yn cynnwys profiad maith, dal swydd uchel a safle o gyfrifoldeb, ymddygiad bwriadol a cham-drin a manteisio ar swydd gyfrifol. Cymerodd i ystyriaeth hefyd ymddygiad bwriadol neu ddiofal, gan ddangos ychydig iawn o barch at y Côd Ymddygiad, os o gwbl. | 29 Ebrill, 2020 - <http://comitteemeetings.flintshire.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=174&LLL=0> |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | O ran y ffactorau lliniarol fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys Achos yn derbyn bod gan yr Ymatebwr record flaenorol o wasanaeth da dros gyfnod maith o amser a'i fod yn wleidydd hynod o ymroddedig a oedd yn gweithio'n galed dros ei gymuned a'i Awdurdod. Mewn perthynas â Honiad 3, roedd yr Ymatebwr wedi cydnabod iddo fethu â glynu at y Côd, ac roedd o wedi dangos cryn edifeirwch am y camymddwyn a'r canlyniadau, roedd yn edifar ac roedd wedi ymddiheuro i bawb a gafodd eu heffeithio yn gynnar yn yr archwiliad a drwy gydol y cyfnod, roedd wedi cydweithredu drwy gydol yr ymchwiliad ac wedi cydweithredu â Phanel Dyfarnu Cymru ac yn olaf, roedd wedi ymddiswyddo'n wirfoddol o'i rôl fel Arweinydd, a rhoi'r gorau i'r uwch gyflog oedd yn mynd â'r rôl honno. Roedd y Tribiwnlys Achos yn derbyn hefyd bod yr Ymatebwr, ac eraill hefyd, wedi cael eu cosbi drwy gael eu cywilyddio yn gyhoeddus ac o ganlyniad i gyhoeddusrwydd negyddol am gyfnod sylweddol o amser ac roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon na fyddai'r ymddygiad fyth yn digwydd eto.<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | unfrydol **y dylai Cynghorydd Shotton gael ei wahardd rhag gweithredu fel aelod o'r awdurdod am gyfnod o 3 mis**.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried bod y gwaharddiad cymharol fyr hwn o dri mis yn adlewyrchu'n briodol yr holl ffactorau lliniarol a gwaethygol perthnasol a ffeithiau'r achos. Roedd o'r farn bod gwaharddiad am gyfnod o 3 mis yn gymesur dan yr holl amgylchiadau a dyma oedd y gosb leiaf a oedd yn angenrheidiol i gynnal y Côd Ymddygiad. Nododd, hyd yn oed pe byddai'r Tribiwnlys Achos yn ystyried bod yr Ymatebwr yn gweithredu yn ei gapasiti fel unigolyn preifat mewn perthynas ag anfon ac annog ei CP i anfon negeseuon amhriodol yn ystod oriau gwaith byddai, serch hynny, wedi ystyried gwahardd am gyfnod byr yn briodol ac yn gymesur, o ystyried Erthygl 8 Siarter Hawliau Dynol Ewrop. | |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cyfarwyddyd Ymarfer a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y Cyfarwyddyd Ymarfer a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru dyddiedig 1 Ionawr 2020** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@anglesey.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Mae Llywydd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer mewn perthynas â'r broses sy'n llywodraethu gweithdrefnau PDC. Mae copi wedi'i atodi fel Atodiad 1. Gellir gweld copi pellach ar wefan PDC drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://paneldyfarnu.llyw.cymru/cyfarwyddyd-ymarfer

1.2 Yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), un o'r opsiynau sydd ar gael i'r OGCC yw cyfeirio'r mater at PDC. Pan fydd PDC yn derbyn cyfeiriad gan OGCC, bydd tribiwnlys achos yn cael ei alw.

1.3 Mae'r weithdrefn ar gyfer y tribiwnlys wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 ('y Rheoliadau'). Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn nodi'r Gweithdrefnau sy'n rhaid eu dilyn ac mae Paragraff 3 o'r Atodlen yn egluro'r broses ar gyfer ymateb ysgrifenedig y "person a gyhuddwyd".

1.4 Cyhoeddir y Cyfarwyddyd Ymarfer er mwyn cadarnhau proses y tribiwnlys mewn perthynas â'r ateb cydnabod ysgrifenedig y mae'n rhaid i'r "person a gyhuddwyd" (yr unigolyn yr honnir eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad) ei anfon i Gofrestrydd PDC.

## 2. Y CYFARWYDDYD YMARFER

2.1 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn ceisio darparu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo "personau a gyhuddwyd" i allu cwblhau'r ymateb yn llawn (fel sydd angen o dan baragraff 3 yr Atodlen yn y Rheoliadau) ac er mwyn egluro'r canlyniadau pe na byddai'r broses honno'n cael ei dilyn.

2.2 Mae'r rheoliadau yn nodi y bydd yn rhaid i'r "person a gyhuddwyd" anfon ateb o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Mae'n glir, yn dilyn cyhoeddi'r Cyfarwyddyd Ymarfer na "fydd y tribiwnlys yn cyfarwyddo bod ail gyfle neu gyfle arall yn cael ei roi i ddarparu ymateb llawn, oni bai ei fod o'r farn bod gwneud hynny yn fuddiol o ran cyfiawnder."

2.3 Mae'r Rheoliadau yn nodi y gall tribiwnlys ymestyn yr amser sydd ar gael i aelod gyflwyno ymateb llawn fel y penderfynir gan y tribiwnlys. Mae'n amlwg, yn dilyn cyhoeddiad y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn y "disgwylir y bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod ymateb o 21 diwrnod (oni bai bod hyn yn amhosibl am reswm da), a'u hategu gan dystiolaeth lle bo'n briodol. Dylai'r cais nodi pam y mae angen yr estyniad a pham y byddai estyniad yn fudd o ran cyfiawnder."

2.4 Effaith y Cyfarwyddyd Ymarfer:

2.4.1 Mae'n cadarnhau'r broses ar gyfer y "personau a gyhuddwyd" a'r atebion y mae'n rhaid iddynt ddarparu yn yr ymateb i'r tribiwnlys.

2.4.2 Gwella rheolaeth achos o'r achos gan y tribiwnlys.

2.4.3 Gallai arwain at lai o oedi wrth ddisgwyl i'r "person a gyhuddwyd" ddarparu "ymateb llawn".

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 I'r Pwyllgor Safonau:

3.1.1 Nodi cynnwys y Cyfarwyddyd Ymarfer yn **Atodiad 1**; a

3.1.2 Cadarnhau y dylid tynnu sylw Aelodau Etholedig a Chyfetholedig y Cyngor hwn, ynghyd ag Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned, at gynnwys y Cyfarwyddyd Ymarfer yn **Atodiad 1**.

**APW/PD/01/2020**

## Panel Dyfarnu Cymru: Cyfarwyddyd Ymarfer 1

## Ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon")

1. Mae Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel") yn gwneud y cyfarwyddyd hwn o dan adran 61(2) o Ddeddf Cymru 2017. Mae wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 61(4) o'r un Ddeddf, ar ôl ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 61(8).

**Ymateb i gyfeiriad gan yr Ombwdsmon**

2. Yn dilyn cyfeiriad at Lywydd y Panel gan yr Ombwdsmon o dan adran 71(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd tribiwnlys achos ("y tribiwnlys") yn cael ei gynnull (naill ai tribiwnlys achos llawn neu dribiwnlys achos interim gan ddibynnu ar delerau'r cyfeiriad). Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys wedi eu nodi yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at "y person a gyhuddwyd"; er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cyfeirio at aelod o awdurdod perthnasol sy'n destun cyfeiriad at y Llywydd gan yr Ombwdsmon.

3. Mae Atodlen y Rheoliadau ("y Paragraffau") yn nodi'n fanwl y gweithdrefnau sydd i'w dilyn. Mae paragraff 3 yn dweud:

   "*(1) Rhaid i berson a gyhuddwyd draddodi ateb ysgrifenedig i'r cofrestrydd sy'n cydnabod bod yr hysbysiad wedi dod i law ac yn datgan—*

   *(a) a yw'r person hwnnw yn bwriadu*

   *(i) bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, neu*

   *(ii) herio cynnwys yr adroddiad ac, os felly, ar ba sail;*

   *(b) enw a chyfeiriad a phroffesiwn unrhyw berson sydd i'w gynrychioli ac ai'r cyfeiriad hwnnw fydd cyfeiriad y person hwnnw ar gyfer cyflwyno dogfennau at ddibenion y dyfarniad; ac*

   *(c) a yw'r person hwnnw yn dymuno bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.*

   *(2) Rhaid i ateb o'r fath gael ei lofnodi naill ai gan y person a gyhuddwyd neu gan y cynrychiolydd y mae wedi'i enwebu a chael ei draddodi i'r cyfeiriad ar gyfer y tribiwnlys a bennwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan baragraff 2(c) uchod heb fod yn hwyrach nag un diwrnod ar hugain ar ôl y dyddiad y daeth yr hysbysiad i law neu erbyn unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y tribiwnlys yn ei ganiatáu.*

   *(3) Os na chaiff y cofrestrydd ateb o fewn yr amser penodedig neu o fewn unrhyw estyniad amser a ganiateir gan y tribiwnlys, neu os yw'r person a*

*gyhuddwyd yn datgan yn ei ateb nad yw'n bwriadu naill ai bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad na herio cynnwys yr adroddiad, caiff y tribiwnlys benderfynu ar y dyfarniad heb wrandawiad."*

4. Mae'n ofynnol i aelodau o awdurdodau perthnasol lenwi'r ffurflen ymateb a ddarparwyd gan y Panel yn llawn a'i dychwelyd i'r Panel, neu ddarparu ateb ysgrifenedig sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani ym mharagraff 3, a hynny o fewn 21 diwrnod ar ôl cael hysbysiad ynglŷn â'r cyfeiriad gan y Cofrestrydd. Nid yw datganiadau megis "*i'w gadarnhau*" yn ymateb llawn ac nid ydynt yn dderbyniol gan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion Paragraff 3.

5. Gall methu llenwi'r ffurflen ymateb yn llawn, neu fethu dychwelyd ffurflen ymateb wedi'i chwblhau'n llawn neu ateb ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â Pharagraff 3, arwain at gymhwyso Paragraff 3(3). Gall yr un peth ddigwydd os bydd yr aelod o'r awdurdod perthnasol yn datgan nad yw'n bwriadu bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad. Gall y tribiwnlys, yn ôl ei ddisgresiwn, benderfynu ar y cyfeiriad heb wrandawiad.

6. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn cadarnhau y bydd y tribiwnlys yn mynd ati, pan fydd ymateb nad yw'n cydymffurfio'n llawn â Pharagraff 3 yn dod i law neu pan na ddaw ymateb i law o gwbl, i benderfynu ar y cyfeiriad heb wrandawiad, oni bai bod y tribiwnlys o'r farn bod cynnal gwrandawiad, o dan yr holl amgylchiadau, yn fuddiol o ran cyfiawnder. Ni fydd y tribiwnlys yn cyfarwyddo bod ail gyfle neu gyfle arall yn cael ei roi i ddarparu ymateb llawn, oni bai ei fod o'r farn bod gwneud hynny yn fuddiol o ran cyfiawnder. Bydd y cyfrifoldeb i berswadio'r tribiwnlys ei bod er budd cyfiawnder i gael cyfle arall i ymateb yn nwylo'r aelod.

7. Tynnir sylw aelodau o awdurdodau perthnasol a'u cynrychiolwyr at Baragraff 3(2). Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn cadarnhau bod y geiriau "*neu erbyn unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y tribiwnlys yn ei ganiatáu"* yn caniatáu cais am estyniad amser er mwyn i ymateb llawn gael ei ddarparu. Disgwylir y bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod ymateb o 21 diwrnod (oni bai bod hyn yn amhosibl am reswm da), a'u hategu gan dystiolaeth lle bo'n briodol. Dylai'r cais nodi pam y mae angen yr estyniad a pham y byddai estyniad yn fudd o ran cyfiawnder.

Dyddiad: 1 Ionawr 2020

Llofnod:

Claire Sharp

Llywydd Panel Dyfarnu Cymru

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru'r Protocol Datrysiad Lleol** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@anglesey.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), yn dilyn adolygiad o'i brawf ar gyfer ymchwilio i gwynion, annog awdurdodau lleol yng Nghymru i ddelio â chwynion o gamymddwyn lefel isel rhwng aelodau drwy brotocol datrysiad lleol anffurfiol.

1.2 Roedd nifer o amcanion y tu ôl i'r datblygiad hwn, yn cynnwys:-

- lleihau nifer y cwynion a gyflwynwyd i OGCC;
- datrysiad cynharach o faterion lleol er mwyn osgoi uwchgyfeirio;
- meithrin perthnasau da a chadarnhaol rhwng aelodau (a rhwng aelodau a swyddogion).

1.3 Roedd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am fabwysiadu protocol ei hun. Ni wnaeth OGCC/Llywodraeth Cymru (a oedd yn gefnogol iawn o'r fenter) nodi unrhyw ofynion ar gyfer y protocol ac ni ddarparwyd unrhyw fformat safonol ar gyfer ei ddilyn.

1.4 Mae'r Protocol a gafodd ei fabwysiadu a'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn i'w weld yn **Atodiad 1**. Cafodd hwn ei gymeradwyo ym Mawrth 2018.

1.5 Does gan y Protocol ddim grym statudol ac mae'n gynllun gwirfoddol ac anffurfiol. Nid yw'n orfodol bod unrhyw aelod yn ufuddhau i'r Protocol ond y gobaith yw eu bod yn gwneud hynny er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol a theg o'r cynllun ar gyfer pawb perthnasol ac fel rhan o drefniadau llywodraethiant lleol cadarn. Fodd bynnag, dylid nodi fod Aelodau dal i gael eu hannog i ddatrys unrhyw faterion yn uniongyrchol gyda'i gilydd neu drwy arweinwyr grwpiau.

## 2. RHESWM DROS NEWID

2.1 Tra bo'r Protocol presennol yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Safonau pan fabwysiadwyd y Protocol, ymddengys, mewn gwirionedd, bod y broses yn wahanol fel arfer. Mae'r Protocol presennol yn cyfeirio at ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau yn cynnal cyfarfod cyfryngu rhwng aelodau. Mae'r Protocol hefyd yn cyfeirio at ffurflen sy'n rhaid ei llenwi cyn y gellir dechrau'r broses.

2.2 Mae'n hanfodol bod y weithdrefn yn adlewyrchu realiti ac felly ystyrir ei bod yn briodol bod y Protocol Datrysiad Lleol yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r weithdrefn sydd wedi datblygu. Mae Protocol diwygiedig, efo newidiadau wedi eu nodi, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2.** Mae copi clir (heb newidiadau wedi eu tracio) wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

## 3. Y CYNNIG

3.1 O dan y Protocol Datrysiad Lleol:

3.1.1 gellir defnyddio'r broses gan Gynghorwyr Sir neu, drwy ddisgresiwn y Cadeirydd, Cynghorwyr Tref a Chymuned;

3.1.2 gallai'r broses gael ei chychwyn gan aelod arall neu uwch swyddog o'r Cyngor Sir (os yw'r mater yn ymwneud â Chynghorydd Sir) ond ni ellir cychwyn y broses gan drydydd parti;

3.1.3 gall Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ddirprwyo'r gwaith o gynnal y broses, yn cynnwys y cyfarfodydd cyfryngu, i unrhyw aelod o'r Pwyllgor

3.2 Y bwriad yw i'r Pwyllgor Safonau ystyried a chytuno i'r Protocol diwygiedig cyn bod yr un peth yn cael ei ganfasio â'r Arweinwyr Grwpiau gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfod Arweinyddion y Grwpiau. Bydd y Protocol Datrysiad Lleol yn cael ei gyflwyno i'r Cynghorwyr yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2020.

3.3 Felly er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Protocol, ac er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn teimlo'n hyderus yn eu rôl, bydd hyfforddiant allanol pwrpasol ar Gyfryngu yng nghyd-destun Protocol Datrysiad Lleol Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. Rhagwelir y cynhelir yr hyfforddiant hwn ym Mai / Mehefin 2020, yn ddibynnol ar argaeledd.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau:

4.1.1 gadarnhau ei fod yn cytuno i ddiwygio'r Protocol Datrysiad Lleol (yn unol ag **Atodiad 2**) a/neu unrhyw ddarpariaeth arall y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yn briodol;

4.1.2 nodi y cynhelir hyfforddiant ar Gyfryngu o fewn cyd-destun Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor hwn ym Mai/Mehefin 2020, yn ddibynnol ar argaeledd; ac

4.1.3 awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno'r Protocol drafft newydd i Arweinyddion y Grwpiau ac i gyfarfod y Cyngor Sir ar 19 Mai 2020 a cheisio cefnogaeth Aelodau Etholedig.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

## Cyffredinol

1. Pwrpas y Protocol anffurfiol hwn yw:
   - hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad;
   - meithrin a chynnal perthnasau gwaith da ymysg aelodau, a rhwng aelodau a swyddogion;
   - rhoi sylw i gwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad nad ydynt yn cyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â thystiolaeth a budd cyhoeddus;
   - delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosib er mwyn osgoi mynd â'r mater ymhellach yn ddiangen;
   - diogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol ond yn berthnasol i achosion o gamymddwyn honedig yn erbyn aelodau o dan ddau baragraff yn y Cod Ymddygiad, sef:
   **4(b)**
   honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill a/neu
   **6(1)(d)**
   honiadau bod aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill.

3. Nid yw'r Protocol yn gymwys i gwynion gan drydydd partïon.

4. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon drwy broses gyfryngu. Trefniant gwirfoddol ydyw felly mae'n rhaid i'r naill barti a'r llall gytuno i gyfryngu. Nid oes unrhyw sail statudol i'r broses. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau.

6. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr Ombwdsmon ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad.

## Y Weithdrefn ar gyfer cynnal cyfarfod cyfryngu

7. Mae'n rhaid i aelod neu swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol gyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (mae'r ffurflen ynghlwm) yn egluro:
   - pa bryd ac ymhle y digwyddodd y camymddwyn honedig;
   - sut a pham mae'r aelod wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) a/neu 6(1)(d);

8. Mae'n rhaid anfon unrhyw gŵyn ysgrifenedig at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 14 diwrnod o'r dyddiad y daeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn rhannu'r gŵyn gyda'r aelod sy'n destun y gŵyn.

10. Bydd gan yr aelod sy'n derbyn y gŵyn 14 diwrnod, o'r diwrnod mae'n ei derbyn, i anfon ymateb ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn nodi ei ymateb.

11. Ar ôl derbyn ymateb gan yr aelod y cafwyd cwyn yn ei erbyn/herbyn, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn:-
- copïo'r ymateb llawn i'r achwynydd;
- trefnu cyfarfod preifat sy'n gyfleus i'r naill ochr rhwng yr achwynydd a'r aelod sy'n destun y gŵyn ynghyd â dau aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

12. Cynhelir y cyfarfod yn breifat.

13. Os nad oes unrhyw ymateb wedi'i dderbyn o dan baragraff 10 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, yna ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal oherwydd mae angen cytundeb y ddwy ochr i'r broses gyfryngu lwyddo.

14. **Cyfarfod Cyfryngu**

14.1 Bydd y "panel" anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys unrhyw ddau aelod annibynnol o'r Pwyllgor, ar sail rota. Ni chaiff aelodau panel y Pwyllgor Safonau ond hwyluso'r cyfarfod cyfryngu os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

14.2 Caiff y gwaith papur ei gyfyngu i'r gŵyn gychwynnol a'r ymateb.

14.3 Pwrpas cyfarfod cyfryngu fydd i'r partïon ddod i ddatrysiad y maent yn cytuno arno. Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn llunio barn na'n gwneud unrhyw ganfyddiadau ond fe allant wneud rhai argymhellion. Ni fydd argymhellion o'r fath yn rhwymol.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# FFURFLEN PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL -

# I GYCHWYN Y BROSES GYFRYNGU

**A: Eich Manylion**

| Cyfenw: | Enw(au) cyntaf: | Teitl: |
|---|---|---|
| Cyfeiriad a Chod Post: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |
| Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd: | | |
| Rhif Symudol: | | |

Nodwch ym mha rai o'r ffyrdd uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

______________________________________________________________

**B: Ynglŷn â'ch cwyn (parhewch gyda'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r aelod rydych yn cwyno amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n ei feddwl maent wedi'i wneud o'i le?

C.3 Ydych chi'n meddwl eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau a pham?

C.4 Disgrifiwch sut ydych chi wedi cael eich effeithio gan yr ymddygiad sy'n destun eich cwyn

C5. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r mater sy'n destun eich cwyn?

CC-019486-LB /441290(441292)

C.6 Ydych chi eisoes wedi ceisio datrys eich cwyn gydag unrhyw un arall e.e. yr aelod yn uniongyrchol, arweinydd grŵp ac ati? Os ydych, rhowch fanylion cryno os gwelwch yn dda o sut, pa bryd y gwnaethoch, ac unrhyw ganlyniad.

C.7 Beth ydych chi'n ei ddisgwyl ar ddiwedd y broses?

Llofnod: ______________________ Dyddiad: _________________

Pan ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

E-bost: mxwcs@ynysmon.gov.uk

**Nodwch os gwelwch yn dda y bydd copi o'ch ffurflen yn cael ei rhannu gyda'r aelod sy'n destun eich cwyn.**

CC-019486-LB /441290(441292)

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

## Chwefror 2020

### ~~Cyffredinol~~Pwrpas y Protocol

1. Pwrpas y Protocol anffurfiol a **gwirfoddol** hwn yw:
   - hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad;
   - meithrin a chynnal perthnasau gwaith da~~ ymysg aelodau, a rhwng aelodau a swyddogion~~;
   - rhoi sylw i gwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad nad ydynt yn cyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â thystiolaeth a/neu budd cyhoeddus;
   - delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosib er mwyn osgoi mynd â'r mater ymhellach yn ddiangen;
   - diogelu enw da'r Cygnor.

2. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon drwy broses gyfryngu, gyda'r partion yn derbyn cymorth gan aelod o'r Pwyllgor Safonau er mwyn cyrraedd datrysiad derbyniol.

3. Er mwyn sicrhau anffurfioldeb, bydd gwaith papur yn cael ei gyfyngu i'r lleiafswm.

4. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr OGCC chwaith ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy OGCC ar gyfer cynnal ymchwiliad.

**Sefyllfaoedd pan fydd y Protocol yn berthnasol**

6. Mabwysiedir y Protocol er budd aelodau'r Cyngor ac mae i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd pan fydd aelod yn mynegi pryder ynghylch aelod arall neu pan fydd uwch swyddog o'r Cyngor hwn yn mynegi pryder am ymddygiad aelod. Nid yw'r Protocol yn berthnasol ar gyfer cwynion yn erbyn aelodau gan drydydd partïon.

7. Yn unol efo disgresiwn y Cadeirydd, a chyda cytundeb y partion perthnasol i'r mater, gellid defnyddio'r model hwn rhwng aelodau yn y Cynghorau Tref a Chymuned.

~~2.~~8. Ni fydd y Protocol ond yn berthnasol i achosion o gamymddwyn honedig gan ~~yn erbyn~~ aelodau o dan ~~ddau~~ y ~~p~~baragraff~~au~~ canlynol yn y Cod Ymddygiad, sef:
4(a)

Formatted: Font: Bold

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: Bold

Formatted: List Paragraph, Left, No bullets or numbering, Allow hanging punctuation, Adjust space between Latin and Asian text, Adjust space between Asian text and numbers, Font Alignment: Auto

Formatted: No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: Not Bold

Honiadau o fethu cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau gyda ystyriaeth i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.
4(b)
honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill; a/neu
4(c)
Honiadau fod aelod yn bwlio neu harasio unrhyw berson;
4(d)
Honiadau fod aelod yn ymddwyn mewn modd sy'n peryglu / debygol o beryglu didueddrwydd swyddogion y cyngor;
5(a)
Honiadau fod aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol / gwybodaeth o natur gyfrinachol, heb ganiatâd;
5(b)
Honiadau fod aelod wedi rhwystro unigolyn rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.
6(1)(a)
Honiadau fod aelod wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod;
6(1)(d)
honiadau bod aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill;.
7(a)
Honiadau fod aelod wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi mantais neu i osgoi anfantais iddi hi / iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall;
7(b)
Honiadau fod aelod wedi defnyddio, neu awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau'r awdurdod yn annoeth / anghyfreithlon

9. Mater i ddisgresiwn y Cadeirydd ydi penderfynu os ydi hi/o yn meddwl fod y pryder sydd wedi ei fyngei yn rhy ddifrifol ar gyfer cyfryngu / i'w ddelio o dan drefn y Protocol yma.

3. Nid yw'r Protocol yn gymwys i gwynion gan drydydd partïon.

4. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon drwy broses gyfryngu. Trefniant gwirfoddol ydyw felly mae'n rhaid i'r naill barti a'r llall gytuno i gyfryngu. Nid oes unrhyw sail statudol i'r broses. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau.

6. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr Ombwdsmon ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad.

**Y Weithdrefn i'w dilyn yn unol efo'r Protocol ar gyfer cynnal cyfarfod cyfryngu**

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt
Formatted: Font: (Default) Arial
Formatted: Font: (Default) Arial
Formatted: Font: (Default) Arial, Welsh
Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

10. 7. Gofynnir Mae'n rhaid i aelod neu swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol gyflwyno eu pryder cwyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau neu gyfarfod efo'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd er mwyn cadarnhau(mae'r ffurflen ynghlwm) yn egluro:

- pa bryd ac ymhle y digwyddodd y camymddwyn honedig; a
- sut a pham mae'r aelod wedi mynd yn groes i'r Cod. baragraff 4(b) a/neu 6(1)(d);

Mae ffurflen ysgrifenedig wedi ei hatodi i'r Protocol hwn a gellid ei ddefnyddio os bydd o gymorth i aelodau wrth iddynt gyflwyno eu pryder.

- Os ydi'r pryder yn cael ei fynegi gan uwch swyddog, dylai'r mater gael ei gyfeirio at y Swyddog Monitro

811. Mae'n rhaid i anfon unrhyw gŵyn ysgrifenedig bryder gael ei gyfeirio at Gadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y pryder gŵyn, neu 14 diwrnod o'r dyddiad y daeth yr unigolyn sy'n annog y broses Datrysiad Lleol achwynydd i wybod am y digwyddiad.

912. Bydd Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y pryder ac yn cysylltu efo'r unigolyn sy'n mynegi'r pryder er mwyn cadarnhau os ydi hi/o o'r farn fod y mater yn addas o dan y Broses Datrysiad Lleol. Bydd y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cysylltu efo'r unigolyn sydd wedi mynegi'r pryder gyda'i phenderfyniad/benderfyniad. rhannu'r gŵyn gyda'r aelod sy'n destun y gŵyn.

13 Os ydi'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn fodlon cynorthwyo drwy Ddatrysiad Lleol, bydd y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cysylltu'r unigolyn sy'n destun y pryder er mwyn egluro fod pryder wedi ei fynegi ac er mwyn gofyn os fyddai hi/o yn fodlon mynychu cyfarfod cyfryngu o dan y Protocol Datrysiad Lleol. Bydd manylion y pryder yn cael eu rhannu efo'r aelod. Bydd gofyn i'r unigolyn ymateb cyn diwedd 14 diwrnod.

10. Bydd gan yr aelod sy'n derbyn y gŵyn 14 diwrnod, o'r diwrnod mae'n ei derbyn, i anfon ymateb ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn nodi ei ymateb.

1411. Ar ôl derbyn ymateb cadarnhaol gan yr aelod y cafwyd cwyn yn ei erbyn/herbyn, bydd Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn: trefnu pedwar cyfarfod preifat ar adeg sy'n gyfleus i bawb, mor fuan â sy'n rhesymol bosib.
Bydd y cyfarfod cyntaf efo'r unigolyn sydd wedi mynegi'r pryder er mwyn casglu gwybodaeth a deall pa fath o ddatrysiad mae hi/o yn dymuno ei weld;
Bydd yr ail gyfarfod efo'r unigolyn sy'n destun y pryder er mwyn egluro'r sefyllfa, gwrando ar ei safbwynt a gweld a fyddai hi/o yn fodlon cyfarfod efo'r person sy'n mynegi'r pryder er mwyn ceisio cael datrysiad derbyniol i'r ddau barti;
Yn drydydd, bydd cyfarfod pellach efo'r unigolyn sydd wedi mynegi pryder er mwyn cadarnhau os ydi'r aelod yn fodlon cyfarfod efo hi/fo ac egluro safbwynt yr aelod;
Yn bedwerydd, bydd cyfarfod rhwng yr unigolyn sy'n mynegi pryder a'r aelod sy'n destun y pryder gan anelu at ddatrysiad sydd wedi ei gytuno rhwng y partion. Ni fydd yr aelod o'r Pwyllgor Safonau yn llunio barn na'n gwneud unrhyw ganfyddiadau ond fe allant wneud rhai argymhellion anffurfiol i'r partion. Ni fydd argymhellion o'r fath yn rhwymol.

- copïo'r ymateb llawn i'r achwynydd;
- trefnu cyfarfod preifat sy'n gyfleus i'r naill ochr rhwng yr achwynydd a'r aelod sy'n destun y gŵyn ynghyd â dau aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

CC-01948622335-LB /441290(441292)549201

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Formatted: Left, Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.27 cm, No bullets or numbering, Allow hanging punctuation, Adjust space between Latin and Asian text, Adjust space between Asian text and numbers, Font Alignment: Auto

15 Er fod y Protocol hwn yn cyfeirio at y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cynnal y broses gyfryngu, gall y Cadeirydd/Is-Gadeirydd ddirprwyo gweithredu 12 i 14 uchod i unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor Safonau. Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Safonau ond yn hwyluso'r cyfarfod cyfryngu os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

Formatted: Indent: Left: 0 cm

126. Cynhelir y cyfarfodydd yn breifat.

13. Os nad oes unrhyw ymateb wedi'i dderbyn o dan baragraff 10 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, yna ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal oherwydd mae angen cytundeb y ddwy ochr i'r broses gyfryngu lwyddo.

14. **Cyfarfod Cyfryngu**

14.1 Bydd y "panel" anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys unrhyw ddau aelod annibynnol o'r Pwyllgor, ar sail rota. Ni chaiff aelodau panel y Pwyllgor Safonau ond hwyluso'r cyfarfod cyfryngu os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

14.2 Caiff y gwaith papur ei gyfyngu i'r gŵyn gychwynnol a'r ymateb.

14.3 Pwrpas cyfarfod cyfryngu fydd i'r partïon ddod i ddatrysiad y maent yn cytuno arno. Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn llunio barn na'n gwneud unrhyw ganfyddiadau ond fe allant wneud rhai argymhellion. Ni fydd argymhellion o'r fath yn rhwymol.

17 Bydd gwaith papur yn cael ei gyfyngu i'r pryder gwreiddiol ysgrifenedig ac unrhyw nodiadau gaiff eu gwneud gan yr aelod o'r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfodydd. Bydd yr holl nodiadau yn cael eu dinistrio yn syth ar ddiwedd y broses. Ni gedwir copiau a ni chaiff dim ei gyclchredeg.

18 Os nad oes unrhyw ymateb wedi'i dderbyn o dan baragraff 13 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, gellid anfon nodyn atgoffa. Os na fydd ymateb pellach, yna ni fydd cyfarfod yn cael ei drefnu. Mae angen cytundeb y ddwy ochr i'r broses gyfryngu lwyddo.

19 Mae cymryd rhan yn y Broses Datrysiad Lleol yn benderfyniad gwirfoddol a gall unigolyn dynnu yn ei ôl ar unrhyw adeg.

**FFURFLEN PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL -**

**I GYCHWYN Y BROSES GYFRYNGU**

**A: Eich Manylion**

| Cyfenw: | Enw(au) cyntaf: | Teitl: |
|---|---|---|
| Cyfeiriad a Chod Post: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |
| Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd: | | |
| Rhif Symudol: | | |

Nodwch ym mha rai o'r ffyrdd uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

______________________________________________________________

**B: Ynglŷn â'ch pryder~~cwyn~~ (parhewch gyda'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r aelod rydych yn cwyno amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n ei feddwl maent wedi'i wneud o'i le?

C.3 Ydych chi'n meddwl eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau a pham?

C.4 Disgrifiwch sut ydych chi wedi cael eich effeithio gan yr ymddygiad sy'n destun eich pryder~~cwyn~~

C5. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r mater sy'n destun eich pryderewyn?

C.6 Ydych chi eisoes wedi ceisio datrys eich pryder cwyn gydag unrhyw un arall e.e. yr aelod yn uniongyrchol, arweinydd grŵp ac ati? Os ydych, rhowch fanylion cryno os gwelwch yn dda o sut, pa bryd y gwnaethoch, ac unrhyw ganlyniad.

C.7 Beth ydych chi'n ei ddisgwyl ar ddiwedd y broses?

Llofnod: ______________________ Dyddiad: _________________

Pan ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

E-bost: mxwcs@ynysmon.gov.uk JohnJones@ynysmon.gov.uk

RhysDavies@ynysmon.gov.uk

**Nodwch os gwelwch yn dda y bydd copi o'ch ffurflen yn cael ei rhannu gyda'r aelod sy'n destun eich cwyn.**

CC-0194862235-LB /441290(441292)549201

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

# Chwefror 2020

**<u>Pwrpas y Protocol</u>**

1. Pwrpas y Protocol anffurfiol a **gwirfoddol** hwn yw:
    - hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad;
    - meithrin a chynnal perthnasau gwaith da;
    - rhoi sylw i gwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad nad ydynt yn cyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â thystiolaeth a/neu budd cyhoeddus;
    - delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosib er mwyn osgoi mynd â'r mater ymhellach yn ddiangen;
    - diogelu enw da'r Cyngor.

2. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon drwy broses gyfryngu, gyda'r partion yn derbyn cymorth gan aelod o'r Pwyllgor Safonau er mwyn cyrraedd datrysiad derbyniol.

3. Er mwyn sicrhau anffurfioldeb, bydd gwaith papur yn cael ei gyfyngu i'r lleiafswm.

4. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr OGCC chwaith ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy OGCC ar gyfer cynnal ymchwiliad.

**Sefyllfaoedd pan fydd y Protocol yn berthnasol**

6. Mabwysiedir y Protocol er budd aelodau'r Cyngor ac mae i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd pan fydd aelod yn mynegi pryder ynghylch aelod arall neu pan fydd uwch swyddog o'r Cyngor hwn yn mynegi pryder am ymddygiad aelod. Nid yw'r Protocol yn berthnasol ar gyfer cwynion yn erbyn aelodau gan drydydd partïon.

7. Yn unol efo disgresiwn y Cadeirydd, a chyda cytundeb y partion perthnasol i'r mater, gellid defnyddio'r model hwn rhwng aelodau yn y Cynghorau Tref a Chymuned.

8. Ni fydd y Protocol ond yn berthnasol i achosion o gamymddwyn honedig gan aelodau o dan y paragraffau canlynol yn y Cod Ymddygiad, sef:
    4(a)
    Honiadau o fethu cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau gyda ystyriaeth i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb,

4(b)
honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill;
4(c)
Honiadau fod aelod yn bwlio neu harasio unrhyw berson;
4(d)
Honiadau fod aelod yn ymddwyn mewn modd sy'n peryglu / debygol o beryglu didueddrwydd swyddogion y cyngor;
5(a)
Honiadau fod aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol / gwybodaeth o natur gyfrinachol, heb ganiatâd;
5(b)
Honiadau fod aelod wedi rhwystro unigolyn rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.
6(1)(a)
Honiadau fod aelod wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod;
6(1)(d)
honiadau bod aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill;
7(a)
Honiadau fod aelod wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi mantais neu i osgoi anfantais iddi hi / iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall;
7(b)
Honiadau fod aelod wedi defnyddio, neu awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau'r awdurdod yn annoeth / anghyfreithlon

9. Mater i ddisgresiwn y Cadeirydd ydi penderfynu os ydi hi/o yn meddwl fod y pryder sydd wedi ei fyngei yn rhy ddifrifol ar gyfer cyfryngu / i'w ddelio o dan drefn y Protocol yma.

**<u>Y Weithdrefn i'w dilyn yn unol efo'r Protocol</u>**

10. Gofynnir i aelod sy'n dymuno defnyddio'r Protocol gyflwyno eu pryder yn ysgrifenedig i Gadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau neu gyfarfod efo'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd er mwyn cadarnhau:

- pa bryd ac ymhle y digwyddodd y camymddwyn honedig; a
- sut a pham mae'r aelod wedi mynd yn groes i'r Cod.

Mae ffurflen ysgrifenedig wedi ei hatodi i'r Protocol hwn a gellid ei ddefnyddio os bydd o gymorth i aelodau wrth iddynt gyflwyno eu pryder.

Os ydi'r pryder yn cael ei fynegi gan uwch swyddog, dylai'r mater gael ei gyfeirio at y Swyddog Monitro

11. Mae'n rhaid i unrhyw bryder gael ei gyfeirio at Gadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y pryder, neu 14 diwrnod o'r dyddiad y daeth yr unigolyn sy'n annog y broses Datrysiad Lleol i wybod am y digwyddiad.

12. Bydd Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y pryder ac yn cysylltu efo'r unigolyn sy'n mynegi'r pryder er mwyn cadarnhau os ydi hi/o o'r farn fod y mater yn addas o dan y Broses Datrysiad Lleol. Bydd y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cysylltu efo'r unigolyn sydd wedi mynegi'r pryder gyda'i phenderfyniad/benderfyniad.

13 Os ydi’r Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn fodlon cynorthwyo drwy Ddatrysiad Lleol, bydd y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cysylltu’r unigolyn sy’n destun y pryder er mwyn egluro fod pryder wedi ei fynegi ac er mwyn gofyn os fyddai hi/o yn fodlon mynychu cyfarfod cyfryngu o dan y Protocol Datrysiad Lleol. Bydd manylion y pryder yn cael eu rhannu efo’r aelod. Bydd gofyn i’r unigolyn ymateb cyn diwedd 14 diwrnod.

14 Ar ôl derbyn ymateb cadarnhaol gan yr aelod, bydd Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn trefnu pedwar cyfarfod preifat ar adeg sy’n gyfleus i bawb, mor fuan â sy’n rhesymol bosib.

Bydd y cyfarfod cyntaf efo’r unigolyn sydd wedi mynegi’r pryder er mwyn casglu gwybodaeth a deall pa fath o ddatrysiad mae hi/o yn dymuno ei weld;

Bydd yr ail gyfarfod efo’r unigolyn sy’n destun y pryder er mwyn egluro’r sefyllfa, gwrando ar ei safbwynt a gweld a fyddai hi/o yn fodlon cyfarfod efo’r person sy’n mynegi’r pryder er mwyn ceisio cael datrysiad derbyniol i’r ddau barti;

Yn drydydd, bydd cyfarfod pellach efo’r unigolyn sydd wedi mynegi pryder er mwyn cadarnhau os ydi’r aelod yn fodlon cyfarfod efo hi/fo ac egluro safbwynt yr aelod;

Yn bedwerydd, bydd cyfarfod rhwng yr unigolyn sy’n mynegi pryder a’r aelod sy’n destun y pryder gan anelu at ddatrysiad sydd wedi ei gytuno rhwng y partion. Ni fydd yr aelod o’r Pwyllgor Safonau yn llunio barn na’n gwneud unrhyw ganfyddiadau ond fe allant wneud rhai argymhellion anffurfiol i’r partion. Ni fydd argymhellion o’r fath yn rhwymol.

15 Er fod y Protocol hwn yn cyfeirio at y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn cynnal y broses gyfryngu, gall y Cadeirydd/Is-Gadeirydd ddirprwyo gweithredu 12 i 14 uchod i unrhyw aelod arall o’r Pwyllgor Safonau. Ni fydd aelodau’r Pwyllgor Safonau ond yn hwyluso’r cyfarfod cyfryngu os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

16. Cynhelir y cyfarfodydd yn breifat.

17 Bydd gwaith papur yn cael ei gyfyngu i’r pryder gwreiddiol ysgrifenedig ac unrhyw nodiadau gaiff eu gwneud gan yr aelod o’r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfodydd. Bydd yr holl nodiadau yn cael eu dinistrio yn syth ar ddiwedd y broses. Ni gedwir copiau a ni chaiff dim ei gyclchredeg.

18 Os nad oes unrhyw ymateb wedi’i dderbyn o dan baragraff 13 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, gellid anfon nodyn atgoffa. Os na fydd ymateb pellach, yna ni fydd cyfarfod yn cael ei drefnu. Mae angen cytundeb y ddwy ochr i’r broses gyfryngu lwyddo.

19 Mae cymryd rhan yn y Broses Datrysiad Lleol yn benderfyniad gwirfoddol a gall unigolyn dynnu yn ei ôl ar unrhyw adeg.

## FFURFLEN PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL -

## I GYCHWYN Y BROSES GYFRYNGU

**A: Eich Manylion**

| Cyfenw: | Enw(au) cyntaf: | Teitl: |
|---|---|---|
| Cyfeiriad a Chod Post: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |
| Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd: | | |
| Rhif Symudol: | | |

Nodwch ym mha rai o'r ffyrdd uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

---

**B: Ynglŷn â'ch pryder (parhewch gyda'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r aelod rydych yn cwyno amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n ei feddwl maent wedi'i wneud o'i le?

C.3 Ydych chi'n meddwl eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau a pham?

C.4 Disgrifiwch sut ydych chi wedi cael eich effeithio gan yr ymddygiad sy'n destun eich pryder

C5. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r mater sy'n destun eich pryder?

C.6 Ydych chi eisoes wedi ceisio datrys eich pryder gydag unrhyw un arall e.e. yr aelod yn uniongyrchol, arweinydd grŵp ac ati? Os ydych, rhowch fanylion cryno os gwelwch yn dda o sut, pa bryd y gwnaethoch, ac unrhyw ganlyniad.

C.7 Beth ydych chi'n ei ddisgwyl ar ddiwedd y broses?

Llofnod: ______________________ Dyddiad: _________________

Pan ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

E-bost: JohnJones@ynysmon.gov.uk

RhysDavies@ynysmon.gov.uk

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad:** | **11 Mawrth 2020** |
| **Teitl yr Adroddiad:** | **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi trosolwg i aelodau o'r cynigion a gynhwysir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i fframwaith llywodraeth leol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Lynn Ball – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |

1.0 **CEFNDIR**

1.1 Ar 18 Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn drafft o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n argymell nifer o newidiadau yn y modd y mae Llywodraeth Leol yn gweithredu a'r ffordd y mae etholiadau'n cael eu gweinyddu yng Nghymru. Mae'r Bil yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth ac mae manylion llawn i'w gweld drwy ddilyn y ddolen.
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688

1.2 Ymysg cynigion eraill, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer

- Diwygio trefniadau etholiadau sy'n cynnwys rhoi'r hawl i bobl ifanc 16 ac17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru bleidleisio mewn etholiadau lleol; gwella'r broses o gofrestru etholwyr; galluogi cynghorau i ddewis system bleidleisio;
- Pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned;
- Annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder;
- Diwygio trefniadau arweinyddiaeth drwy benodi Prif Weithredwr statudol ac annog mwy o amrywiaeth a chyfleoedd o fewn trefniadau'r weithrediaeth;
- Posibilrwydd am rannu swyddi o fewn y Weithrediaeth;
- Gwneud newidiadau i reolau Absenoldeb Teuluol a bennir ym Mesur Llywodraeth Leol 2011;
- Dileu Pleidleisiau Cymunedol a chryfhau cynlluniau deisebau Cynghorau
- Cynigion mewn perthynas â chydweithio rhanbarthol a sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC);
- Prosesau hunanasesu cryfach mewn perthynas â pherfformiad cynghorau a chryfhau pwerau Gweinidogion Cymru i gefnogi / ymyrryd;
- Pwerau i hwyluso trefniadau gwirfoddol i uno prif gynghorau ac ailstrwythuro'r brif ardal;

- Rôl asesu perfformiad gan arweinyddion grwpiau ar gyfer aelodau eu grwpiau; a
- Darpariaethau'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi annomestig a threth gyngor.

1.3 Rhagwelir y bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd yr haf 2020. Bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil, megis newidiadau i absenoldebau teuluol, yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith oherwydd yr angen i gadw i fyny â deddfwriaeth gyfredol. Mae rhannau eraill o'r Bil yn debygol o gael eu rhoi ar waith yn 2022, ar gychwyn tymor newydd y cynghorau, yn ôl disgresiwn Gweinidogion wrth basio Offerynnau Statudol.

## 2.0 CYNNWYS Y BIL

2.1 Oherwydd bod y Bil yn un manwl iawn, a chan nad yw pob agwedd ohono o anghenraid yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau, mae trosolwg bras o'r darpariaethau ynghlwm yn **Atodiad A**. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gyffredinol. Rydw i wedi amlygu'r materion sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Safonau. Mae tri maes:

### 2.1.1 Dyletswydd ar arweinwyr grŵp i gynnal safonau ymddygiad uchel

2.1.1.1 O dan y cynnig hwn, bydd rhaid i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp ac i gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau sicrhau bod arweinwyr grŵp yn cael mynediad i gyngor a hyfforddiant i gefnogi'r dyletswyddau hyn a bydd rhaid i'r Pwyllgor Safonau fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grŵp â'r ddyletswydd dan y ddarpariaeth hon.

2.1.1.2 Bydd rhaid i'r Pwyllgor Safonau weithio gydag arweinwyr grŵp i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofyn sydd arnynt mewn perthynas â safonau ymddygiad aelodau eu grŵp.

2.1.1.3 Bydd angen diweddaru cylch gorchwyl y pwyllgor safonau hefyd.

### 2.1.2 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor

2.1.2.1 O dan y cynnig hwn, bydd yn ofynnol i'r pwyllgor safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r awdurdod yn disgrifio sut y bu iddo gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn rhoi trosolwg o faterion ymddygiad o fewn y cyngor. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion gan y pwyllgor safonau o fewn 3 mis o'i dderbyn.

2.1.2.2 Bydd angen diweddaru cylch gorchwyl y pwyllgor safonau.

2.1.2.3 Mae'r arfer o gyflwyno adroddiad blynyddol eisoes wedi'i sefydlu yn y Cyngor hwn. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod darpariaeth mewn lle i sicrhau bod adroddiadau'r pwyllgor safonau yn y dyfodol yn cynnwys y materion a restrir yn y ddeddfwriaeth newydd.

### 2.1.3 Cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned

2.1.3.1 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned ddatblygu cynlluniau hyfforddi. Er nad fydd hyn yn ofynnol i'r cyngor sir, gallai fod o ddiddordeb i aelodau mewn perthynas â'u rôl fel cynghorwyr cymuned.

2.1.3.2 Bydd y ddarpariaeth o ddiddordeb i aelodau'r pwyllgor safonau yng nghyd-destun eu gwaith wrth hybu hyn, yng ngwyneb gwrthwynebiad gan ambell gyngor cymuned, dros y 5-6 mlynedd diwethaf.

2.1.3.3 Mae'r pwyllgor safonau wedi trafod y mater hwn hefyd wrth gynnal adolygiadau o gofrestrau o ddiddordebau a dogfennau eraill y cynghorau tref a chymuned.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad a chynnwys **Atodiad A** ac ystyried pa gamau eraill y mae angen eu cymryd (os o gwbl), gan gynnwys a yw'n dymuno i waith pellach gael ei wneud ar unrhyw un o'r meysydd a amlygwyd yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor.

**ATODIAD A**

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

**→Rhan 1 – Etholiadau**

**Hawl i bleidleisio**
Hawl i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio mewn Etholiadau Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn dilyn ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a chaniatáu i bobl ifanc 16-17 oed bleidleisio yn etholiadau 2021. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i etholiadau sy'n defnyddio'r etholfraint llywodraeth leol (e.e. refferenda) ond ni fydd yn ymestyn i etholiadau tu hwnt i reolaeth ei bwerau datganoledig.

**Ymestyn Cenedligrwydd**
Ar hyn o bryd mae etholfraint llywodraeth leol yn caniatáu i ddinasyddion y DU, yr UE a'r Gymanwlad gofrestru a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Bydd y Bil yn ymestyn yr etholfraint i ganiatáu i unrhyw ddinesydd sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru gofrestru a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, beth bynnag yw eu cenedligrwydd.

**Newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau cyngor**
Ar hyn o bryd, mae'r holl etholiadau lleol yng Nghymru'n defnyddio'r system etholiadol y cyntaf i'r felin. Mae'r Bil yn caniatáu i bob cyngor ddewis defnyddio'r system etholiadol y Cyntaf I'r Felin (CIF) neu Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD). Mae'r Bil yn cynnwys meini prawf penodol mewn perthynas â newid y system, megis cefnogaeth dwy ran o dair o'r aelodau, adolygiad etholiadol a chynyddu nifer o wardiau aml-aelod, ac atal yr hawl i fynd yn ôl i system CIF o fewn cyfnod penodol o amser.

**Cylch Etholiadau**
Cadarnhau y bydd y cylch etholiadau yn newid o bedair i bum mlynedd.

**Cronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol**
Mae'r mesur yn gwneud cynnig i rannu data er mwyn galluogi Swyddog Cofrestru Etholiadol i ychwanegu unigolyn i'r gofrestr etholwyr heb fod angen iddynt wneud cais, yn amodol ar ddeddfwriaeth bellach a dilyn meini prawf penodol.

**Hawl i Sefyll**
Yn unol â newidiadau mewn perthynas â phwy sy'n gymwys i bleidleisio, bydd yr hawl i sefyll mewn etholiad yn cael ei ymestyn, beth bynnag yw cenedligrwydd yr ymgeisydd. Bydd y Bil yn caniatáu i weithwyr y Cyngor sefyll etholiad yn eu cyngor eu hunain, oni bai eu bod mewn swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Ni fydd rhaid iddynt ymddiswyddo oni bai eu bod yn cael eu hethol.
Mae'r Bil yn ymestyn y darpariaethau anghymhwyso i gynnwys unrhyw un sy'n destun gofynion hysbysu dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, neu orchymyn dan y cyfryw ddeddf.

**Cynlluniau Peilot**
Gall Gweinidogion gyfarwyddo cynghorau i gynnal cynlluniau peilot mewn perthynas â gwahanol ddulliau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Cyn hyn, roedd rhaid i gynghorau wneud cais.

## →Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys weithredu er budd gorau eu cymunedau er mwyn cynhyrchu arbedion effeithiolrwydd a sicrhau gwerth am arian. Bydd modd iddynt godi arian drwy godi tâl am wasanaethau dewisol ac i fasnachu, yn unol â'u pwerau presennol. Mae'r Bil yn caniatáu i gynghorau gymryd yn ganiataol eu bod yn meddu ar bŵer oni bai bod cyfyngiad statudol yn atal y fath weithred.

## →Rhan 3 – Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol

**Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd**
Bydd yn ofynnol i gynghorau annog cyfranogiad mewn democratiaeth leol. Bydd yn ofynnol hefyd iddynt baratoi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, ymgynghori arni a'i hadolygu gyda'r nod o'i gwneud yn haws i bobl ddeall sut mae'r cyngor yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau a sut y gallant gymryd rhan.

**Cynllun deisebau**
Er mwyn hyrwyddo defnydd cynyddol a mwy effeithiol o ddeisebau o fewn y sector llywodraeth leol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor greu cynllun deisebau sy'n nodi sut y bydd yn ymdrin â deisebau, gan gynnwys e-ddeisebau. Bydd y Bil yn diddymu'r rheolau mewn perthynas â phleidleisiau cymunedol gyda'r bwriad y bydd y cynllun deisebau'n cymryd ei le.

**Gwybodaeth am Gynghorwyr**
Bydd angen i gynghorau gyhoeddi cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post ar gyfer pob cynghorydd ar eu gwefannau er mwyn i aelodau'r cyhoedd allu cysylltu â nhw. Nid oes rhaid i'r manylion hynny fod yn fanylion personol a gall cynghorwyr ddefnyddio cyfeiriad y cyngor sir fel eu cyfeiriad.

**Canllaw ar y Cyfansoddiad**
Bydd gofyn i gynghorau gyhoeddi canllaw syml, hawdd ei ddeall ar eu cyfansoddiad.

**Gwe-ddarlledu**
Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd gael eu darlledu'n fyw, gyda modd i bobl weld a chlywed y cyfranogwyr a'r trafodion. Os na fydd darllediad ar gael naill ai yn ystod, neu'n dilyn y cyfarfod, ni fydd hynny effeithio ar ddilysrwydd y trafodion.

**Presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd**
Mae'r Bil yn diwygio'r darpariaethau ym mesur llywodraeth leol 2011 i wneud presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd yn fwy hygyrch ac ymarferol.

## →Rhan 4 – Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Llywodraeth Leol

**Penodi a pherfformiad Prif Weithredwr**
Bydd penodiadau'n cael eu gwneud fel Prif Weithredwr awdurdodau lleol yn hytrach na phennaeth y gwasanaeth cyflogedig, a bydd dyletswyddau penodol a threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad.

**Penodi cynorthwywyr i Aelodau'r Weithrediaeth**
Bydd aelodau'r weithrediaeth yn cael penodi cynorthwywyr/dirprwyon o blith aelodau eraill yr Awdurdod i'w cynorthwyo gyda gwaith achos ac i ddeall y portffolio, yn ogystal ag ennill profiad a dealltwriaeth o rôl aelod o'r weithrediaeth. Ni fyddai Cynorthwywyr/Dirprwyon yn rhan o'r weithrediaeth, ni fyddent yn cael pleidleisio nac yn derbyn cyflog am wneud y swydd honno.

**Rhannu swyddi yn y Weithrediaeth**
Bydd y Bil yn caniatáu i aelodau'r Weithrediaeth rannu swyddi. Ni fydd trefniadau rhannu swydd yn cynyddu nifer yr uwch gyflogau fel y'u pennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a byddai'n rhaid rhannu'r cyflog rhwng yr aelodau. Byddai'r union drefniadau'n dibynnu ar y trefniadau rhannu swydd y mae'r aelodau'n dymuno eu cael. Dim ond un bleidlais fyddai'n cael ei chaniatáu ar gyfer pob swydd o fewn y Weithrediaeth ac ni fyddai'r trefniadau rhannu swydd yn creu pleidlais ychwanegol.

**Hawl i absenoldeb am resymau teuluol**
Diweddaru darpariaethau er mwyn alinio rheolau absenoldeb teuluol â hawliau gweithwyr y Cyngor.

**Dyletswydd ar arweinwyr grŵp i gynnal safonau ymddygiad uchel**
Bydd rhaid i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp. Wrth wneud hynny bydd rhaid iddynt gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau.

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor**
Bydd yn ofynnol i bwyllgorau safonau (ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol) gyflwyno adroddiad blynyddol i'r awdurdod yn disgrifio sut y cafodd swyddogaethau'r pwyllgor eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn rhoi trosolwg o faterion ymddygiad o fewn y cyngor. Bydd yn ofynnol i'r cyngor ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor safonau o fewn 3 mis i dderbyn yr adroddiad.

**Cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned**
Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i gynghorau cymuned ddatblygu cynlluniau hyfforddi. Er na fydd yn ofynnol i'r cyngor sir wneud hyn, efallai y bydd o ddiddordeb i aelodau mewn perthynas â'u rôl fel cynghorwyr cymuned.

**→Rhan 5 – Cydweithio gan brif gynghorau**

**Pŵer i gymell Awdurdodau Lleol i sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig**
Mae'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol a gweinidogion i sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig i annog cydweithio a gwelliannau ar lefel ranbarthol mewn meysydd penodol a bennir gan y ddeddfwriaeth, gan gynnwys Gwella Addysg, Datblygu Economaidd, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth. Bydd manylion llawn am swyddogaethau, ffiniau a threfniadau llywodraethu yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn endidau ar wahân i'r prif gyngor, gydag awdurdodau'n cyfrannu at weithrediad y Cyd-bwyllgor Corfforedig a bydd arweinydd gweithrediaeth pob awdurdod yn aelod.

## → Rhan 6 – Perfformiad a Llywodraethiant prif gynghorau

**Dyletswydd i adolygu perfformiad**
Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal hunan asesiad o'u perfformiad a chael adolygiad achlysurol i roi golwg allanol, arbenigol ar berfformiad. Mae dyletswydd i ymgynghori â phobl leol ac i adrodd ar y canfyddiadau.
Mae'r Bil yn cefnogi trefniadau presennol sydd mewn lle o ran gallu Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal asesiadau a phŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd os nad yw perfformiad yn foddhaol.

**Pwyllgorau Archwilio**
Bydd Pwyllgorau Archwilio'n cael eu hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a bydd rhaid i draean o'r aelodau fod yn aelodau lleyg ac y dylai'r cadeirydd hefyd fod yn aelod lleyg.

## →Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro prif ardaloedd

Mae darpariaethau yn caniatáu i awdurdodau lleol sy'n dymuno uno wneud hynny ac yn nodi'r broses i'w dilyn i ddiddymu'r hen gynghorau a sefydlu cynghorau newydd.

## →Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi an-nomestig a threth gyngor.

## →Rhan 9 – Amrywiol

**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
Mae'r Bil yn caniatáu i'r Swyddog Monitro gymryd rôl y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac i'r rôl gael ei thrin fel rôl Prif Swyddog, rhywbeth nad oedd Mesur 2011 yn ei ganiatáu.

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Adolygiadau o Gofrestr Diddordebau a gynhaliwyd mewn dau Gyngor Cymuned yn dilyn Adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru**

***Review of the Register of Interests for two Community Councils subject to Welsh Audit Office Reports***

| Paragraff(au) 12, 13, 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 12, 13, 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>[un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>**Byddai datgelu'r adroddiad a'i atodiadau yn caniatau i wybodaeth ynghylch yr adolygiad o gofrestr diddordebau yn y ddau gyngor cymuned gael ei wneud yn gyhoeddus. Gallai hyn gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall yr adolygiad a gynhaliwyd gan y pwyllgor safonau a'r canfyddiadau wnaethpwyd ym mhob cyngor cymuned.**<br><br>Disclosure of the report and its attachments would allow information in relation to the review of the register of interests in the two community councils in question to be made public. This may assist the public in understanding the review undertaken by the standards committee and the findings made in each community council. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>**Mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad a'i atodiadau yn cyfeirio at ddata sy'n perthyn i'r unigolion sy'n gysylltiedig efo'r cynghorau cymuned sy'n cael eu hadolygu. Gallai'r wybodaeth hon, ar y cyd efo data arall sydd eisioes yn y parth cyhoeddus, gael eu cyfuno ac arwain at ddatgelu gwybodaeth bersonol a / neu ddatgelu adnabyddiaeth yr unigolion sy'n gysylltiedig efo'r cynghorau cymuned hyn.**<br><br>**Pan gynhaliwyd yr adolygiadau, rhoddwyd sicrwydd i bob cyngor cymuned na fyddai'r canfyddiadau wnaethpwyd gan y pwyllgor safonau yn ystod yr adolygiadau yn cael eu cyhoeddi gan y pwyllgor safonau. Mae hyn yn rhywbeth mae'r pwyllgor safonau yn gyson yn ei ddulliau; mae ei adroddiadau cyhoeddus yn dilyn adolygiadau yn gyffredinol (pwyntiau dysgu cyffredinol / arfer dda ayyb) a ni fydd cyfeiriad at unrhyw gyngor cymuned yn benodol / ni chaiff ei enwi. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau fod gwybodaeth ynghylch unigolion ddim yn cael ei adnabod yn nogfennau cyhoeddus y pwyllgor. Byddai'n niweidiol i berthynas y pwyllgor safonau efo'r cynghorau tref a chymuned petai gwybodaeth fel hyn yn cael ei ddatgelu gan y pwyllgor.**<br><br>**Yn ychwanegol, mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn atodiadau'r adroddiad yn ei hanfod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i faterion busnes y cyngor cymuned h.y. manylion am ddeallusrwydd cynghorwyr ynghylch y cod ymddygiad / cyfeiriadau at ymarfer dda a materion sydd angen eu gwella. Gallasai gwybodaeth fel hyn, o'i gyhoeddi yn y parth cyhoeddus, gael ei ddefnyddio er afles i'r cyngor cymuned ac / neu ei aelodau.**<br><br>The information included in the report and its attachments refers to data which relates to the individuals connected with the community councils being reviewed. This information, together with other data which is already in the public domain, could be combined and thus lead to the disclosure of personal information and /or reveal the identity of the individuals linked to these community councils.<br><br>When conducting the reviews, assurance was given to each community council that the findings made by the standards committee as a result of its review would not be published by the standards committee. This is something on which the standards committee is consistent in its approach; its published reports following reviews will be general (general points of learning / good practice etc.) with no reference to any particular / named community council. This is imperative to ensure that information relating to individuals is not identified in the committee's published documents. It would be harmful to the standards committee's relationship with the town and community councils should such information be disclosed by the committee.<br><br>Furthermore, the information included in the report's attachments by its very nature includes information relating to the business affairs of the community council i.e. details of councillors' understanding of the code of conduct / reference to examples of good practice and areas which need to be improved. Such information, if made available and in the public domain, could be used to the detriment of the community council and/ or its members. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank